

Prifysgol Cymru
Cod Ymarfer ar gyfer Graddau MPhil a PhD

7^{ed} Argraffiad

1. Cyflwyniad.....	3
2. Rheoliadau.....	4
3. Yr amgylchedd ymchwil.....	4
4. Dethol a mynediad.....	5
4.1 Cyhoeddusrwydd.....	5
4.2 Dethol.....	5
4.3 Gofynion mynediad a gweithdrefnau.....	5
4.4 Y llythyr o gynnig.....	6
4.5 Amodau ar gyfer cofrestru myfyrwyr ymchwil allanol.....	7
Gofynion i ymgeiswyr allanol.....	7
5. Hyfforddi.....	8
5.1 Cynefino.....	8
6. Goruchwyllo.....	9
6.1 Cadarnhau Cyfarwyddwr Astudiaethau.....	9
6.2 Y tîm goruchwyllo.....	9
6.3 Cyfeirlyfr Cyfarwyddwyr Astudiaethau a Goruchwylwyr y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd.....	11
6.4 Datblygiad proffesiynol goruchwylwyr.....	12
6.5 Rolau goruchwyllo.....	12
6.6 Cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol.....	13
Cofnodion cyfarfodydd.....	13
6.7 Dadansoddiad o anghenion a'r rhaglen hyfforddi.....	14
6.8 Absenoldeb y Cyfarwyddwr Astudiaethau.....	14
6.9 Adolygu a monitro cynnydd.....	14
Beth sy'n gyfystyr â chynnydd boddhaol?.....	15
Adolygiadau ffurfiol.....	16
Monitro blynyddol.....	17
7. Trosglwyddo o MPhil/PhD i PhD.....	18
8. Asesu.....	19
8.1 Cyflwyno'r traethawd.....	19
8.2 Arholiadau.....	19
8.3 Y Bwrdd Arholi.....	20
8.4 Meini prawf ar gyfer penodi arholwyr.....	21
8.5 Y broses arholi.....	22
Yr adroddiadau ysgrifenedig.....	22
Yr arholiad llafar.....	23
Cyfathrebu canlyniad yr arholiad.....	24
Canllawiau i arholwyr ar draethodau sy'n cael eu hailgyflwyno.....	24
9.0 Hawliau a chyfrifoldebau ymgeiswyr.....	25
9.1 Hawliau a chyfrifoldebau.....	25
9.2 Gwahardd y defnydd o brawf ddarllenwyr proffesiynol.....	25
9.3 Seibiant.....	25
9.4 Cyflogaeth.....	26
9.5 Apeliadau.....	26
9.6 Cwynion.....	26
10. Adroddiadau Sefydliadol Blynyddol.....	26
Atodiad: Canllawiau ar gyfer rheoli estyniadau a gohiriadau.....	27

1. Cyflwyniad

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn nodi polisi Prifysgol Cymru ['y Brifysgol' o hyn allan] ar faterion o arfer da sy'n ymwneud â graddau MPhil a PhD trwy Ymchwil. Mae cod ymarfer ar wahân yn berthnasol i ddoethuriaethau proffesiynol. Mae'n berthnasol i sefydliadau achrededig a sefydliadau cyswllt [y cyfeirir atynt o hyn allan fel 'sefydliadau'] ac i ganolfannau cyswllt a chymeradwy eraill [y cyfeirir atynt o hyn allan fel 'canolfannau'].

Bwriedir iddo ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i aelodau o staff academaidd, myfyrwyr ymchwil, gweinyddwyr ac aelodau o fyrddau arholi. Mae'n ymhelaethu ar y fframwaith ar gyfer rheoli astudiaethau ymchwil a ddarperir gan y Rheoliadau Academaidd Cyffredinol ar gyfer Graddau Ymchwil.

Nod y Cod Ymarfer yw sicrhau:

- bod safonau academaidd y Brifysgol yn cael eu cynnal, a
- bod myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn cael cyfle teg a rhesymol i gyflawni potensial llawn eu hymchwil.

Mae'r Cod Ymarfer yn gosod prosesau a gweithdrefnau gweinyddol, y dylid eu trin fel rhai sydd ag awdurdod rheoleiddio isradd i'r Rheoliadau.

Yr eithriad yw Atodiad 3 *Disgwyliadau goruchwylio Prifysgol Cymru yn dilyn arholiad cyntaf*. Mae hwn yn nodi disgwyliadau goruchwylio'r Brifysgol yn dilyn arholiad llafar cyntaf, ond nid oes awdurdod rheoleiddiol i'r amodau o fewn yr atodiad.

Lluniwyd y cod yn wreiddiol ar ôl edrych ar amrywiol ddogfennau a gyhoeddwyd yn allanol, a pharhawyd i'w ddatblygu drwy gyfeirio at ddatblygiadau a gweithiau eraill sydd wedi'u cyhoeddi yn y sector Addysg Uwch yn gyffredinol, yn cynnwys y canlynol:

- penodau perthnasol o *God Ymarfer yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd*;
- QAA Doctoral Degree Characteristic (2011; Dogfen Ymgynghori Drafft 2014)
- Adroddiad Hydref 2002 HEFCE 'Improving standards in research degree programmes';
- Canllawiau Pwyllgor Cenedlaethol Ôl-raddedigion ar Godau Ymarfer ar gyfer Ymchwil;
- SET for Success (2003);
- Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru;
- Safonau a Chanllawiau Gwobr Ansawdd Cenedlaethol ar gyfer Sicrhau Ansawdd.
- Cyngor Addysg Graddedigion y DU;
- Cynghorau Ymchwil y DU;
- Universities UK;
- Vitae.

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â:

- Rheoliadau Prifysgol Cymru;
- Canllawiau Graddau Ymchwil y Sefydliad;
- Llawlyfr Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig y Sefydliad;

- Llawlyfr Myfyrwyr Ôl-raddedig a Rhan Amser y Sefydliad;
- Llawlyfr Goruchwylwyr y Sefydliad;
- Codau Ymddygiad a Rheoliadau Disgyblaethol y Sefydliad neu Ganolfan

Noder: Gwnaed pob ymdrech i sicrhau cysondeb rhwng y gwahanol ddogfennau a gynhrychir gan Brifysgol Cymru ar gyfer rheoli graddau ymchwil. Fodd bynnag, lle yr ymddengys bod gwrthdaro rhwng yr arweiniad neu'r rheoliadau a gynhwysir yn y dogfennau hyn, mae Rheoliadau Prifysgol Cymru ar gyfer Graddau Ymchwil yn cael blaenoriaeth dros yr holl ddogfennau eraill, gan gynnwys y Cod Ymarfer hwn. Mae'r cod hwn yn cael blaenoriaeth dros lawlyfrau Sefydliad/Canolfan ar gyfer myfyrwyr ymchwil a goruchwylwyr.

2. Rheoliadau

Mae Rheoliadau Prifysgol Cymru ['y Rheoliadau' o hyn allan] ar gael ar y wefan i'r holl staff a myfyrwyr ymchwil. Maent hefyd ar gael ar gais gan Gofrestrfa Academaidd pob sefydliad [o hyn allan dylid cymryd mai ystyr y term 'Cofrestrfa Academaidd' yw Cofrestrfa Academaidd neu ei chyfwerth yn y sefydliad neu ganolfan achrededig ble mae'r myfyriwr wedi cofrestru].

Mae'r Rheoliadau'n nodi:

- y cymwysterau angenrheidiol ar gyfer mynediad at raglenni ymchwil, yn ogystal â'r cymwysterau neu'r profiad a all roi eithriad rhag rhan o'r rhaglen, neu ran o'r dulliau ymchwil neu hyfforddiant cynefino gofynnol;
- y gofynion ar gyfer dilyniant, monitro ac adolygu cyfnodau angenrheidiol o astudio;
- rheolau a gweithdrefnau traethawd ymchwil ac arholiad.

3. Yr Amgylchedd Ymchwil

Yn ystod y broses ymgynghori gydag ymgeiswyr cyn mynediad, dylai sefydliadau a chanolfannau sicrhau bod digon o arbenigedd ar gael i ddarparu cymorth goruchwyllo gyda'r pwnc a fydd yn cael ei ddilyn o fewn amgylchedd o ymchwil gweithredol a bod hyfforddiant priodol ar gael i gefnogi anghenion arbenigol yr ymgeisydd. Dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw myfyrwyr posib yn cael eu hynysu o fewn eu prosiect eu hunain a bod ganddynt gyswllt ag ymchwilwyr eraill o'r tu fewn a thu allan i Brifysgol Cymru er mwyn iddynt allu rhannu profiadau a ffurfio rhwydweithiau

Yn gyffredinol dylai'r canlynol fod ar gael i fyfyrwyr:

- cyfleoedd i gysylltu â'r gymuned broffesiynol ehangach trwy, er enghraifft, fynychu cynadleddau a seminarau;
- mynediad parod at golegau academaidd er mwyn cyngor a chymorth;
- offer priodol ar gyfer dysgu ac ymchwil;
- y cyfle i ddatblygu rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid ble y gellir trafod materion neu broblemau'n anffurfiol;
- arweiniad ar foeseq ac arfer da ymchwil;

- pwyslais ar yr angen i gwblhau'r prosiect ymchwil o fewn amserlen gytûn.

4. Dethol a Derby

Cyfrifoldeb y Pwyllgor Graddau Ymchwil mewn sefydliadau a chanolfannau yw sicrhau mai dim ond ymgeiswyr â'r cymwysterau addas sy'n cael derbyn i astudio gradd ymchwil. Yn achos ymgeiswyr nad yw Saesneg neu Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, mae hyn yn cynnwys sicrhau y bydd ymgeiswyr yn bodloni gofynion iaith Saesneg neu Gymraeg Prifysgol Cymru. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ymgymryd â rhaglen gynefino benodol i fyfyrwyr ar ddechrau eu rhaglen ymchwil.

4.1 Cyhoeddusrwydd

Dylai sefydliadau a chanolfannau sicrhau bod eu defnydd hyrwyddo, boed ar y we neu ar bapur, yn eglur, cywir a chyfredol, ac yn ddigon manwl i fod o gymorth ac yn cynnwys digon o wybodaeth i ymgeiswyr posib am lefel y gweithgarwch a chanolbwynt y rhaglen ymchwil. Rhaid i'r holl ddefnydd cyhoeddusrwydd gael ei gymeradwyo gan Brifysgol Cymru cyn cael ei ddisbarthu.

4.2 Dethol

Pwyllgor Graddau Ymchwil y sefydliad neu ganolfan sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob ymgeisydd ar gyfer astudio wedi cael ei ystyried yn drwyadl ac yn deg yng ngoleuni gofynion cyfreithiol a'r polisiâu perthnasol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Ble mae gan ymgeiswyr anghenion arbennig, dylid nodi'r rhain a rhoi sylw iddynt yn foddhaol cyn gwneud cynnig.

Dylai bod gan Bwyllgorau Graddau Ymchwil system fynediad ar waith ar gyfer ymgeiswyr am raddau ymchwil sy'n sicrhau bod ceisiadau'n cael eu hystyried yn deg.

4.3 Gofynion mynediad a gweithdrefnau

Yn gyffredinol, mae'r Brifysgol yn disgwyl i ymgeiswyr sydd yn ceisio mynediad at raglen gradd feddu ar radd anrhydedd gan Sefydliad Addysg Uwch cydnabyddedig, gyda dosbarth 2:i neu uwch, *neu* radd meist, neu gymhwyster y mae Prifysgol Cymru yn ystyried sy'n cyfateb â'r lefel hwn.

Os nad yw ymgeiswyr yn bodloni'r anghenion hyn, mae Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd Prifysgol Cymru wedi dirprwyo i Bwyllgorau Graddau Ymchwil sefydliadol y cyfrifoldeb am sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu dangos y gallu academaidd cyfwerth, er

enghraifft, eu bod wedi ennill y sgiliau, gwybodaeth a hyfforddiant gofynnol trwy eu gwaith proffesiynol.

Mae'n bwysig felly, wrth iddo wneud ei argymhellion i'r Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd, bod y Pwyllgor Graddau Ymchwil yn nodi nodweddion gwaith proffesiynol ymgeiswyr sy'n dangos tystiolaeth eu bod wedi ennill sgiliau o'r fath. Er enghraifft, fe all y gwaith ddefnyddio sgiliau academaidd sydd wedi eu datblygu yn ystod gradd israddedig mewn ffordd sy'n datblygu asesiad beirniadol annibynnol o dystiolaeth neu'n meithrin cynlluniau, neu ddefnydd o fethodoleg a fyddai wedi ymestyn eu cyflawniad israddedig. Yn amlwg, ni fydd ymgeiswyr sy'n gweithio mewn swyddi heb radd yn ei chael yn hawdd i fodloni'r gofyniad hwn. Yn ogystal, rhaid i bob ymgeisydd roi enw o leiaf dau ganolwr awdurdodol. Os nad yw ymgeiswyr yn bodloni'r gofynion mynediad sylfaenol, rhaid i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil sicrhau bod dau adroddiad cyfrinachol boddhaol yn cael eu derbyn cyn cynnig lle i'r ymgeisydd. Dylai'r cyfweiliad (naill ai wyneb yn wyneb neu o bell), ble'n bosib, gael ei gynnal gan o leiaf ddau aelod o staff, a dylai o leiaf un ohonynt fod wedi derbyn hyfforddiant priodol mewn gweithdrefnau dethol a derbyn. Rhaid i'r staff sy'n gyfrifol am gyfweiliad ag ymgeiswyr yn ystod y broses fynediad ymgynghorol:

- i. sicrhau bod digon o ysgogiad i ymdopi â manylrwydd gradd ymchwil;
- ii. sicrhau bod golygon realistig o ran meddu ar yr adnoddau i dalu'r ffioedd gofynnol a darparu cymorth trwy gydol y rhaglen;
- iii. sicrhau bod gan ymgeiswyr ddealltwriaeth eglur o'r canlynol:

- y ffioedd sydd i'w talu;
- yr amgylchedd gweithio;
- yr adnoddau sydd ar gael;
- y tîm goruchwylio;
- disgwyliadau'r sefydliad / canolfan.

Pan fydd y broses ddethol wedi ei chwblhau, bydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil, ynghyd ag aelodau eraill o staff a roddodd gyfweiliad i'r ymgeisydd, yn penderfynu a yw'r ymgeisydd wedi bod yn llwyddiannus ai peidio, a bydd yn cofnodi'r rheswm dros yr argymhelliad.

Yn ogystal â'r uchod, mae'n ofynnol bod ymgeiswyr nad ydynt yn raddedigion o'r Brifysgol yn matriciweiddio cyn cofrestru. Matriciweiddio yw'r dilysiad ffurfiol o gymwysterau ymgeiswyr ar gyfer cynllun astudio sy'n arwain at radd neu ddyfarniad academaidd arall gan Brifysgol Cymru. Mae manylion y broses matriciweiddio ar gael gan Gofrestrfa Academaidd, neu gyfatebol, y Sefydliad neu'r Ganolfan.

4.4 Y llythyr o gynnig

Y Pwyllgor Graddau Ymchwil sy'n gyfrifol am gyfathrebu â'r awdurdod priodol yn y sefydliad neu ganolfan ynglŷn â cheisiadau ac am hysbysu staff gweinyddol am benderfyniadau mynediad. Os fydd cynnig i gael ei wneud, dylid anfon manylion at ymgeiswyr yn unol â pholisïau'r sefydliad neu ganolfan dan sylw.

Dylai llythyr o gynnig i ymgeiswyr am raddau MPhil/PhD gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- teitl y cynllun gradd;
- y bydd myfyrwyr fel arfer yn cofrestru ar gyfer MPhil (oni bai eu bod wedi cael mynediad uniongyrchol) gyda'r posibilrwydd o drosglwyddo i PhD ar ôl cwblhau cyfnod astudio cymhwysol yn foddhaol;
- astudiaeth llawn amser neu ran amser;
- isafswm ac uchafswm y cyfnod astudio;
- cyfanswm y ffioedd disgwylidig, yn cynnwys ffioedd dysgu ac unrhyw daliadau, ffioedd neu gostau eraill y byddai disgwyl i ymgeiswyr eu talu;
- enw'r Cyfarwyddwr Astudiaethau neu'r tîm goruchwyllo;
- enw'r unigolyn yn y sefydliad neu ganolfan y gellir cysylltu â nhw os ceir unrhyw broblemau;
- y ddolen i'r Cod Ymarfer hwn a'r Llawlyfr Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig perthnasol, er mwyn gallu mynd at wybodaeth bellach (gan gynnwys gwybodaeth am drefniadau ar gyfer cofrestru a chynefino, cyfrifoldebau ymgeiswyr, gofynion o ran presenoldeb a hyfforddiant, yn ogystal ag unrhyw gyfyngiadau ar oriau gwaith y tu allan i'r rhaglen).

4.5 Amodau ar gyfer cofrestru myfyrwyr ymchwil allanol

Caniateir i ymgeiswyr sydd am gynnal ymchwil y tu allan i'r sefydliad neu ganolfan i gofrestru ar raglenni gradd ymchwil ar yr amod:

- bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer mynychu;
- bod adnoddau ymchwil priodol ar gael yn allanol;
- bod trefniadau goruchwyllo priodol ar gael.

Noder: Mae ymgeiswyr sy'n defnyddio adnoddau'n rheolaidd wrth gynnal eu hymchwil yn y sefydliad neu ganolfan y maent wedi cofrestru ynddynt yn ymgeiswyr mewnol.

Y gofynion i ymgeiswyr allanol

Bydd angen yr wybodaeth ganlynol ar y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd, yn ogystal â'r cynnig ymchwil arferol, cyn y bydd yn ystyried cymeradwyo rhaglen o astudiaeth ar gyfer ymgeiswyr llawn amser neu ran amser.

Dylai'r ganolfan:

- ddarparu cyfrif manwl o'r holl adnoddau sydd eu hangen ar gyfer rhaglen ymchwil, a ble y bydd yr ymgeisydd yn gallu mynd at yr adnoddau hynny. Mae'r rhain yn cynnwys ffynonellau arbenigol (fel daliadau data, offer dadansoddol, catalogau ac ati) yn ogystal ag adnoddau mwy cyffredinol fel cymorth TG, adnoddau rhyngwrwyd a llyfrgell;
- darparu manylion y rhaglen ymchwil ffurfiol arfaethedig a'r rhaglen datblygiad personol;
- darparu cyfrif manwl o gymwysterau a rolau aelodau'r tîm goruchwyllo (mewnol ac allanol) a sut y byddant yn rheoli'r rhaglen ymchwil, yn cynnwys sut i fynd at oruchwylwyr a pha mor aml, rôl y goruchwylwyr allanol, trefniadau ar gyfer goruchwyliaeth anffurfiol, yn ogystal ag adolygiadau chwarterol a blynyddol ffurfiol, a rheoli portffolios datblygiad proffesiynol ymgeiswyr;
- sicrhau, fel rhan o fonitro blynyddol ymgeiswyr allanol, bod timau goruchwyllo ac ymgeiswyr yn cael gwahoddiad i wneud sylwadau pendant am amllder ac ansawdd cysylltiadau neu gyfarfodydd goruchwyllo;

- cytuno ar amserlen dros dro ar gyfer presenoldeb yn y sefydliad neu ganolfan. Fel arfer byddai disgwyl i ymgeisydd dreulio o leiaf 10 diwrnod y flwyddyn yn y ganolfan ar gyfer goruchwyliaeth a mynychu cwrs /seminar.

Os yw ymgeisydd eisoes wedi cofrestru, ac yn dymuno newid ei statws i statws allanol, rhaid i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil yn y sefydliad neu'r ganolfan fod yn fodlon bod modd diwallu'r amodau uchod fel bo'n briodol i gam ymchwil yr ymgeisydd.

5. Hyfforddiant

Dylai ymgeiswyr fynychu cyrsiau gofynnol yn y sefydliad neu ganolfan. Dylai'r rhain gynnwys, fel lleiafswm: hyfforddiant cynefino ar gyfer ymchwil a chysiau gorfodol eraill a ddarperir naill ai yn y sefydliad neu ganolfan neu ar sail eang ar draws Prifysgol Cymru.

Dylai ymgeiswyr nad sydd wedi derbyn hyfforddiant priodol mewn dulliau ymchwil gwblhau rhaglen hyfforddiant gymeradwy mewn dulliau o'r fath naill ai yn y sefydliad neu mewn canolfan gymeradwy arall. Os yw'r sefydliad neu ganolfan yn ystyried bod hyfforddiant pellach yn briodol, rhaid cytuno ar drefniadau ar gyfer yr hyfforddiant hwn.

Cyfarwyddwyr Astudiaethau sy'n gyfrifol am sicrhau bod anghenion datblygiad personol a phortffolios datblygiad proffesiynol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cael eu cofnodi'n briodol. Lle nad yw hyfforddiant yn digwydd yn y sefydliad neu ganolfan, dylai'r Cyfarwyddwr Astudiaethau nodi ble y bydd yr hyfforddiant hwn yn digwydd.

5.1 Cynefino

Rhaid i'r sefydliad neu ganolfan redeg rhaglen gynefino i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn agos at bob cyfnod mynediad. Dylid rhoi cyfle i ymgeiswyr fynychu'r rhaglen hon cyn gynted â phosib ar ôl mynediad. Dylai'r rhaglen ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant yn ogystal â chyflwyno ymgeiswyr i staff academaidd a gweinyddol, a helpu i ddatblygu eu rhwydweithio â myfyrwyr ôl-raddedig eraill. Dylid gwneud trefniadau hefyd i gyflwyno ymgeiswyr yn ffurfiol i staff y llyfrgell berthnasol ac iddynt dderbyn hyfforddiant llyfrgell priodol.

Dylai'r broses gynefino esbonio:

- y cyfleusterau sydd ar gael i ymgeiswyr;
- rheolau ynglŷn â'r defnydd o gyfleusterau, arfer da, a, lle bo hynny'n briodol, yr hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer cyfarpar arbennig;
- rheolau ynglŷn â rheoli a diogelu data;
- gofynion Iechyd a Diogelwch a, lle bo hynny'n briodol, reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH);
- materion polisi Eiddo Deallusol;
- y cais moeseg ymchwil, a gofynion a phrosesau cymeradwyo'r sefydliad neu ganolfan, yn ogystal â gofynion moeseg ymchwil Prifysgol Cymru;
- gofynion i fyfyrwyr fynychu a chyflwyno seminarau ymchwil ac ymgymryd â hyfforddiant ymchwil arall;

- cyfleoedd i ymgeiswyr fynychu cynadleddau a chyfarfodydd;
- trefniadau goruchwyllo ac adolygu a'r gefnogaeth sydd ar gael.

Lle mae ymgeiswyr yn darparu dogfennau sy'n profi eu bod wedi cwblhau hyfforddiant blaenorol sy'n gyfwerth â'r hyfforddiant a ddarperir yn y rhaglen gynefino, fe all y Bwrdd Graddau Ymchwil benderfynu y gellir eu heithrio rhag y gofyniad i ymgymryd â rhan o'r rhaglen gynefino neu'r rhaglen gyfan. Ar ôl cadarnhau eu bod wedi cwblhau'r rhaglen gynefino neu wedi cael eu hesgusodi'n llwyr neu'n rhannol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr gwblhau ffurflen Adolygu Hyfforddiant Ymchwil. Mae'r ffurflen hon yn dilyn ymlaen o'r asesiad o anghenion hyfforddi adeg mynediad ac yn amlinellu anghenion hyfforddi ymgeiswyr o ran y prosiect ymchwil arfaethedig. Dyma'r cam cyntaf yn y broses PDP. Ar ôl cwblhau ffurflen Adolygu Hyfforddiant Ymchwil, rhaid i ymgeiswyr a'u goruchwylwr/goruchwylwyr drafod a chytuno ar gynllun a fydd yn ffurfio sylfaen y PDP. Rhaid adolygu'r cynllun yn rheolaidd a'i ddiwygio trwy gydol y rhaglen ymchwil. Rhaid i'r cynllun gynnwys asesiad sgiliau llawn a manylion unrhyw hyfforddiant y gallai fod ei angen i gynorthwyo i gwblhau'r prosiect ymchwil yn llwyddiannus. Rhaid i ymgeiswyr adolygu a, lle bo angen, ddiwygio'r cynllun trwy gydol y rhaglen ymchwil. Mae Cyfarwyddwyr Astudiaethau'n gyfrifol am sicrhau bod asesu ffurflenni PDP yn rhan o'r adroddiad monitro blynyddol ar gyfer timau goruchwyllo.

6. Goruchwyliaeth

6.1 Cadarnhau Cyfarwyddwr Astudiaethau

Cadarnheir manylion y Cyfarwyddwr Astudiaethau pan gynigir lle i ymgeiswyr astudio am MPhil neu PhD, a dylid cynnwys y manylion yn y llythyr cynnig. Lle bo modd, rhaid cynnwys enwau'r goruchwylwyr eraill. Fodd bynnag mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil yn aros tan i'r ymgeiswyr gofrestru cyn penderfynu'n derfynol ar y tîm goruchwyllo ond mae'n rhaid cadarnhau'r tîm llawn cyn pen 3 mis ar ôl cofrestru. Mae angen nodi enwau a phrofiad goruchwyllo'r rhai a fydd yn goruchwyllo prosiectau penodol ar ffurflen y Cynnig Gradd Ymchwil llawn.

6.2 Y tîm goruchwyllo

Dylai ymgeiswyr gael o leiaf dau oruchwylwr y disgwylir iddynt barhau yn eu swyddi yn y Sefydliad neu Ganolfan am o leiaf isafswm y cyfnod astudio y mae'r ymgeisydd yn cofrestru ar ei gyfer. Dylai o leiaf un aelod o'r tîm goruchwyllo fod yn gyflogai parhaol yn y Sefydliad neu Ganolfan (â contract sy'n cyfateb i o leiaf 0.4 swydd lawn amser). Rhaid i dimau goruchwyllo gynnwys staff sy'n meddu ar:

- brofiad o oruchwyllo ymgeiswyr graddau ymchwil a gwblhaodd eu rhaglenni'n llwyddiannus;
- tystiolaeth o weithgarwch ymchwil diweddar;

- tystiolaeth o gyraeddiadau ymchwil sylweddol (er enghraifft lefelau arwyddocaol o gyhoeddiadau, grantiau neu ddyfarniadau).

Yr enw ar y prif oruchwyliwr yw'r Cyfarwyddwr Astudiaethau, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am waith a chynnydd ymgeiswyr, gan eu goruchwyllo'n rheolaidd ac yn aml. Cyfarwyddwyr Astudiaethau sy'n gyfrifol am gyfeirio timau goruchwyllo, a sicrhau bod ymgeiswyr a goruchwylwyr eraill yn gwybod beth yw rôl pob aelod o'r tîm. Rhaid i Gyfarwyddwyr Astudiaethau fod yn ymchwilwyr gweithgar, gan fodloni meini prawf a nodir gan Fwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd Prifysgol Cymru i'w cynnwys yng Nghyfeiriadur Cyfarwyddwyr Astudiaethau'r Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd. Fel arfer mae'r Cyfarwyddwr Astudiaethau yn aelod o staff y Sefydliad neu Ganolfan.

Rhaid i o leiaf un goruchwyliwr fod â phrofiad o oruchwyllo o adeg cofrestru hyd at gwblhau graddau ymchwil neu uwch yn llwyddiannus, naill ai ar lefel y cofrestrriad arfaethedig neu ar lefel uwch. Disgwylir hefyd y bydd yr holl oruchwylwyr yn gallu dangos eu bod yn bodloni o leiaf un o'r gofynion canlynol:

- meddu ar radd uwch drwy ymchwil;
- awdur cyhoeddiadau ymchwil mewn maes sy'n berthnasol i'r prosiect ymchwil arfaethedig;
- profiad o oruchwyllo ymchwil mewn maes sy'n berthnasol i'r prosiect ymchwil arfaethedig.

Yn ychwanegol at oruchwylwyr, gellir ychwanegu ymgynghorydd neu ymgynghorwyr at dimau prosiect i gyfrannu rhyw wybodaeth arbenigol neu i weithredu fel dolen gyswllt â sefydliad allanol. Mae Pwyllgorau Graddau Ymchwil yn gyfrifol am sicrhau bod gan dimau goruchwyllo yr arbenigedd a'r profiad priodol, yn arbennig mewn gweithgaredd a chyflawniad ymchwil a hyfforddiant a bod maint ac ystod y cyfrifoldebau a neilltuir i aelodau unigol o'r tîm goruchwyllo yn galluogi goruchwylwyr i gyflawni eu dyletswyddau yn foddhaol ac yn brydlon.

Mae'r Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd wedi penderfynu na ddylai baich gwaith goruchwyllo aelod unigol o staff, yn cynnwys Cyfarwyddwr Astudiaethau a rolau goruchwyllo eraill, fod yn fwy na chyfanswm o ddeg myfyriwr cyfwerth ag amser llawn, gyda mwyafrif o chwe myfyriwr cyfwerth ag amser llawn fel Cyfarwyddwr Astudiaethau.

Wedi i fyfyrwyr gyflwyno eu traethawd ymchwil, nid ydynt bellach yn cyfrif o ran y cyfanswm a ganiateir, ac fe all sefydliadau (o fewn rheswm) ragweld y dyddiad cyflwyno wrth gynllunio cyfrifoldebau goruchwyllo ar gyfer myfyrwyr y disgwylir iddynt gofrestru.

Fel arfer ni chaniateir i aelodau o staff sydd eu hunain yn ymgeisio am raddau doethurol oruchwyllo ymgeiswyr eraill ar yr un pryd, gan y gallai hyn arwain at wrthdaro buddiannau. Er hynny, os fydd aelodau o staff yng nghamau olaf cwblhau eu doethuriaeth eu hunain, ac os oes ganddynt arbenigedd penodol sy'n berthnasol i'r prosiect nad sydd ar gael yn unrhyw le arall yn y sefydliad neu ganolfan, gellir cynnwys yr aelod o staff (gyda chymeradwyaeth y Pwyllgor Graddau Ymchwil) fel ail neu drydydd goruchwyliwr. Wrth geisio cymeradwyaeth o'r fath, rhaid i'r sawl sy'n cynnig nodi pa aelod o'r tîm goruchwyllo arfaethedig sy'n ymgeisydd am radd ymchwil, a'r arbenigedd penodol sy'n sail i'w gynnwys yn y tîm goruchwyllo.

6.3 Cyfeiriadur Cyfarwyddwyr Astudiaethau a Goruchwylwyr y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd

Yng nghyd-destun y Cyfeiriadur Cyfarwyddwyr Astudiaethau, gall Pwyllgorau Graddau Ymchwil gyflwyno enwau darpar Gyfarwyddwyr Astudiaethau sy'n bodloni unrhyw rai o'r meini prawf canlynol i'r Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd ar unrhyw adeg:

i. Cynnyrch a adolygwyd (cyhoeddiadau/cyflwyniadau mewn cynadleddau/arddangosfeydd)

Yn y pum mlynedd ddiwethaf, isafswm o dri chyhoeddiad, gyda dau ohonynt mewn cylchgronau neu ddogfennau eraill sy'n gysylltiedig ag ymchwil sydd ar gael yn gyhoeddus, e.e. traethawd mewn catalog;

ii. Arbenigedd seiliedig ar arfer

Arddangos yn y pum mlynedd ddiwethaf fri cenedlaethol yn y ddisgyblaeth (e.e. prif siaradwr mewn cynhadledd broffesiynol, ethol i uwch swydd mewn sefydliad cenedlaethol, dyfarniad cenedlaethol, penodiad i rôl ymgynghorol genedlaethol megis aelodaeth o un o bwyllgorau'r llywodraeth) a thri chyhoeddiad yn seiliedig ar arfer mewn cyfnodolion neu bapurau cynadleddau cyhoeddus, adroddiadau gwerthuso ar ran y llywodraeth, papurau technegol neu adroddiadau ymgynghoriadau;

iii. Profiad

Llwyddiant sylweddol yn flaenorol o ran cyflawniad ymchwil (h.y. llai nag (a) yn y pum mlynedd ddiwethaf ond cyhoeddiadau, ayb, sylweddol cyn hynny) ac yn y chwe blynedd ddiwethaf, wedi bod yn Gyfarwyddwr Astudiaethau ar o leiaf ddau PhD a gwblhawyd yn llwyddiannus;

iv. Ymchwil a ariannwyd/arbenigedd mewn partneriaethau trosglwyddo gwybodaeth glasurol

O leiaf ddwy Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP) Glasurol yn y brif rôl oruchwyliol academaidd, neu weithgarwch ymchwil sylweddol arall a ariannwyd gan grant. (Ni ddylid ystyried KTP bach yma.)

Os nad yw Cyfarwyddwyr Astudiaethau arfaethedig yn bodloni unrhyw rai o feini prawf (i) i (iv), gall Pwyllgorau Graddau Ymchwil gyflwyno achos i'r Pwyllgor Graddau a Dyfarniadau Academaidd iddynt gael eu cynnwys yn y Cyfeiriadur Cyfarwyddwyr Astudiaethau; er enghraifft, gallai cydweithwyr feddu ar gyfuniad o elfennau o feini prawf gwahanol.

Yng nghyd-destun y Cyfeiriadur Goruchwylwyr, gall Pwyllgorau Graddau Ymchwil gyflwyno enwau darpar oruchwylwyr, sy'n bodloni unrhyw rai o'r meini prawf canlynol, i'r Bwrdd Graddau Ymchwil unrhyw bryd:

i. Deiliad gradd uwch drwy ymchwil mewn disgyblaeth berthnasol ar y lefel y bydd yr unigolyn yn goruchwyllo neu ar lefel uwch

- ii. Awdur cyhoeddiadau ymchwil mewn maes sy'n berthnasol i'r rhaglen ymchwil arfaethedig
- iii. Llwyddiant o ran derbyn grantiau ymchwil neu gyhoeddi mewn cyhoeddiadau a adolygir gan gymheiriaid yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf;
- iv. Cyhoeddiadau yn seiliedig ar arfer mewn cyfnodolion neu bapurau cynadleddau cyhoeddiedig, adroddiadau gwerthuso ar ran y llywodraeth, papurau technegol neu adroddiadau ymgynghoriadau yn y pum mlynedd ddiwethaf;
- v. Arddangos yn y pum mlynedd ddiwethaf fri cenedlaethol yn y ddisgyblaeth (e.e. prif siaradwr mewn cynhadledd broffesiynol, ethol i uwch swydd mewn sefydliad cenedlaethol, dyfarniad cenedlaethol, penodiad i rôl ymgynghorol genedlaethol megis aelodaeth o un o bwyllgorau'r llywodraeth)
- vi. Profiad o oruchwylwio ymchwil yn ddiweddar mewn maes sy'n berthnasol i'r prosiect ymchwil arfaethedig, e.e.
 - yn y chwe blynedd ddiwethaf wedi cael llwyddiant wrth oruchwylwio PhD a gwblhawyd yn llwyddiannus
 - o leiaf un Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP) Glasurol yn y chwe blynedd ddiwethaf yn y brif rôl oruchwyliol academaidd.

Os nad yw'r goruchwylwyr arfaethedig yn bodloni unrhyw rai o feini prawf (i) i (vi), gall Pwyllgorau Graddau Ymchwil gyflwyno achos i'r Pwyllgor Graddau a Dyfarniadau Academaidd iddynt gael eu cynnwys yn y Cyfeiriadur Goruchwylwyr; er enghraifft, gallai cydweithwyr feddu ar gyfuniad o elfennau o feini prawf gwahanol sydd ychydig y tu allan i'r cyfnodau amser a bennir uchod.

6.4 Datblygiad proffesiynol goruchwylwyr

Dylid rheoli datblygiad proffesiynol goruchwylwyr graddau ymchwil trwy system fentora a gweithdai ar gyfer goruchwylwyr newydd. Rhaid i bob aelod o'r staff academaidd sydd ddim yn gyfarwydd â goruchwylwio fynychu gweithdai ar gyfer goruchwylwyr newydd, sydd wedi eu cymeradwyo gan y sefydliad, cyn diwedd eu blwyddyn gyntaf fel goruchwylwr. Yn ogystal, dylid neilltuo'n ffurfiol aelod arall o'r tîm goruchwylwio y maent yn aelod ohono i fod yn fentor iddynt i ddatblygu sgiliau goruchwylwio.

Disgwylir i oruchwylwyr profiadol fynychu gweithdai a digwyddiadau eraill i gynnal a gwella eu sgiliau ac i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â gofynion y Brifysgol a'r sefydliad neu ganolfan, yn enwedig pan fydd gofynion newydd yn cael eu cyflwyno. Efallai y bydd gofyn mynychu'r rhain. Yn ogystal, os nad yw goruchwylwyr profiadol wedi bod yn arholwyr neu'n gadeiryddion byrddau arholi, bydd angen iddynt fynychu rhaglenni hyfforddi perthnasol yn yr agweddau hyn ar arfer graddau ymchwil.

6.5 Rolau goruchwylwio

Fel arfer bydd y tîm goruchwylwio'n cynnwys Cyfarwyddwr Astudiaethau ac ail oruchwylwr. Efallai y bydd angen tîm goruchwylwio mwy mewn rhai achosion i sicrhau arbenigedd a phrofiad digonol ac mewn rhai achosion gellir ychwanegu goruchwylwr newydd at y tîm i ennill profiad. Fodd bynnag, dylai Pwyllgorau Graddau Ymchwil geisio argymhell tîm goruchwylwio o ddau aelod lle bo modd, gan fod gweithio â thîm yn fwy yn gallu esgor ar broblemau logistaidd i fyfyrwyr a sefydliadau. Rhaid ffurfio timau

goruchwylio gyda'r bwriad y bydd gan bob aelod rôl benodol yn y broses oruchwylio. Fel arfer rhaid i Gyfarwyddwyr Astudiaethau fod yn bennaf gyfrifol am oruchwylio'r ymgeisydd o ddydd i ddydd.

Gallai aelodau eraill timau goruchwylio:

- ddarparu arbenigedd mewn agwedd benodol ar yr ymchwil;
- cynorthwyo'r ymgeisydd i ddatblygu sgiliau adfyfyriol;
- darparu cefnogaeth i'r Gyfarwyddwr Astudiaethau;
- darparu cymorth bugeiliol i'r ymgeisydd;
- gweithredu fel prif oruchwyliwr yn absenoldeb y Gyfarwyddwr Astudiaethau.

Mae'n hanfodol fod timau goruchwylio'n pennu rolau a chyfrifoldebau a gytunir ac yn cyfathrebu'r rhain i'r ymgeiswyr.

6.6 Cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol

Mae cyfarfodydd rhwng Gyfarwyddwyr Astudiaethau (neu aelodau eraill timau goruchwylio) a myfyrwyr yn aml yn anffurfiol. Fodd bynnag, rhaid i fyfyrwyr a goruchwylwyr gadw cofnod priodol o'r camau y cytunir arnynt. Dylid cynnal cyfarfodydd bob pythefnos o leiaf i ymgeiswyr amser llawn, o leiaf yn ystod camau cynnar eu hastudiaeth. Rhaid i dimau goruchwylio gynnal cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd gydag ymgeiswyr (bob tri mis o leiaf yn achos ymgeiswyr amser llawn, neu bob chwe mis yn achos ymgeiswyr rhan amser) i adolygu cyflawniadau, cynnydd, datblygiad sgiliau ac i bennu amcanion ar gyfer cyfnod nesaf yr ymchwil. Rhaid i Gyfarwyddwyr Astudiaethau sicrhau y cwblheir cofnod o gyfarfod goruchwylio, ac yr hysbysir yr aelod priodol o'r Pwyllgor Graddau Ymchwil pan fydd cyfarfodydd chwarterol wedi cael eu cynnal ac os yw cynnydd yn foddhaol ym marn y tîm. Mae'n arbennig o bwysig, os nad yw'r cynnydd yn foddhaol, bod yr aelod priodol o'r Pwyllgor Graddau Ymchwil yn cael ei hysbysu'n brydlon, fel y gellir cymryd camau adferol priodol yn ddi-oed.

Cofnodion cyfarfodydd

Dylai ymgeiswyr a goruchwylwyr gadw cofnodion ysgrifenedig o gyfarfodydd sydd wedi eu trefnu. Dylid cofnodi'r wybodaeth ganlynol fel lleiafswm:

- dyddiadau cyfarfodydd;
- y rhai sy'n bresennol;
- canlyniadau camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf;
- camau gweithredu y cytunwyd arnynt;
- dyddiad y cyfarfod nesaf.

Fe all hefyd fod yn ddefnyddiol i gofnodi, ble'n berthnasol:

- cynnydd a wnaed gan ymgeiswyr ers y cyfarfod blaenorol;
- datblygiadau a allant fod wedi effeithio ar gynnydd ymgeiswyr;
- datblygiadau eraill (o fewn y sefydliad neu ganolfan neu yn allanol) sy'n berthnasol i ymgeiswyr;

- y gofynion hyfforddiant ymchwil diweddaraf
- pryderon naill ai'r ymgeiswyr neu'r goruchwylwyr;
- adolygiad o'r amserlen fwriadol;
- cyflawniadau a ysgogir gan ymgeiswyr.

Dylai'r cofnodion hyn lunio rhan o bortffolio datblygiad proffesiynol ymgeiswyr, ac fe ddylent fod ar gael i gael eu harchwilio gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil.

6.7 Dadansoddiad o anghenion a'r rhaglen hyfforddi

Mae'r gofynion hyfforddi ffurfiol ar gyfer gwahanol raglenni graddau ymchwil yn cael eu nodi yn y canllawiau rhaglenni. Yn achos pob rhaglen ymchwil, bydd y bydd timau goruchwylwyr'n helpu ymgeiswyr ymchwil i ymgymryd â dadansoddiad o'u sgiliau academaidd a generig, a'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt i gwblhau rhaglen ymchwil. Yng ngoleuni'r dadansoddiad hwn, bydd timau'n cynorthwyo ymgeiswyr i bennu amserlen hyfforddiant ac i fonitro datblygiad sgiliau mewn cyfarfodydd adolygu ffurfiol. Rhaid i bob ymgeisydd ymchwil ddatblygu PDP. Dylid cynnwys cyngor ar PDPau ac arfer adfyfyriol mewn rhaglenni cynefino. Mae'n bosibl y bydd nifer o ymgeiswyr wedi datblygu PDP fel elfen ofynnol o'u gwaith proffesiynol cyn dechrau astudio, ac efallai y bydd modd addasu hwn i gynnwys eu datblygiad ymchwil.; nid yw Prifysgol Cymru'n argymhellol ynghylch PDPau ymgeiswyr.

6.8 Absenoldeb y Cyfarwyddwr Astudiaethau

Os bydd Cyfarwyddwr Astudiaethau'n absennol am gyfnodau byr (tri mis neu lai), dylai aelod arall o'r tîm goruchwylwyr ysgwyddo'r cyfrifoldebau, naill ai trwy drefniadau ffurfiol neu anffurfiol.

Os disgwylir i Gyfarwyddwr Astudiaethau fod yn absennol am gyfnod hwy na thri mis, dylai'r Pwyllgor Graddau Ymchwil ymgynghori ag ymgeiswyr a thimau goruchwylwyr a thimau goruchwylwyr a phenodi Cyfarwyddwr Astudiaethau arall (naill ai am gyfnod absenoldeb y Cyfarwyddwr Astudiaethau presennol, neu am weddill y rhaglen ymchwil (fel y bo'n briodol)).

Yn ogystal rhaid i Gyfarwyddwr Astudiaethau'r ymgeisydd ystyried effaith absenoldeb estynedig aelodau eraill timau goruchwylwyr a, lle bo angen dylai'r Cyfarwyddwr Astudiaethau ymgynghori â'r Pwyllgor Graddau Ymchwil i ganfod a phenodi goruchwylwr arall priodol.

6.9 Adolygu a monitro cynnydd

Mae timau goruchwylwyr'n chwarae rôl allweddol wrth sicrhau bod ymchwilwyr ôl-raddedig yn gallu caffael y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i wneud cynnydd ar brosiectau ymchwil ar

y raddfa angenrheidiol er mwyn cwblhau o fewn y cyfnod astudio disgwylidig. Mae myfyrwyr a goruchwylwyr yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau bod amcanion y cynllun ymchwil a hyfforddi yn cael eu hadolygu'n rheolaidd (er enghraifft bob tri mis i ymgeiswyr amser llawn) a'u haddasu yng ngoleuni datblygiadau. Mae ymgeiswyr yn gyfrifol am werthuso cynnydd myfyrwyr wrth gyflawni'r amcanion hyn, a'u cynghori ynghylch y camau adferol angenrheidiol os fydd problemau'n codi. Yn gynnar yn eu hastudiaeth (o fewn tri mis o gofrestru i ymgeiswyr amser llawn a chwe mis i ymgeiswyr rhan amser) dylai ymgeiswyr gytuno ar raglen ymchwil gyda'r tîm goruchwyllo a chyflwyno cynnig ymchwil i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil ac i'r Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd, y mae'n rhaid cael eu cymeradwyaeth er mwyn parhau â'r cofrestrriad. Os na fydd ymgeiswyr wedi cyflwyno prosiect i'w gymeradwyo o fewn y cyfnodau amser a nodir bydd hyn yn achos pryder ac mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r Pwyllgor Graddau Ymchwil sicrhau bod cynnydd boddhaol yn cael ei wneud, a bod timau goruchwyllo wedi datblygu cynlluniau digonol i ymdrin ag unrhyw rwystrau i gynnydd.

Beth sy'n gyfystyr â chynnydd boddhaol?

Yn gyffredinol mae cynnydd boddhaol yn golygu gwneud digon o gynnydd i sicrhau ei bod yn debygol y bydd yr ymgeisydd yn cwblhau'r rhaglen o fewn yr isafswm cyfnod cofrestru arferol. Gall problemau personol neu broffesiynol annisgwyl atal cynnydd, a bwriedir i'r cyngor hwn roi arweiniad cyffredinol, yn hytrach na rhagweld pob posibilrwydd.

Egwyddorion

Yn ystod blwyddyn gyntaf yr ymchwil, mae'n bwysig iawn sicrhau bod ymgeiswyr yn dangos y datblygiad angenrheidiol i barhau eu prosiectau ymchwil nes eu cwblhau. Os fydd ymgeiswyr yn dangos meysydd o wendid a all effeithio'n ddifrifol ar eu gallu i gwblhau'r rhaglen, mae'n hanfodol bod y gwendidau hyn yn cael sylw prydlon a bod unrhyw raglen neu weithgaredd adfer yn cael ei fonitro'n agos. Os fydd ymgeiswyr yn dangos arwyddion amlwg yn ystod y flwyddyn gyntaf o astudio efallai na fyddant yn gallu cwblhau'r rhaglen ymchwil yn foddhaol o fewn y lleiafswm amser arferol, dylai'r sefydliad neu ganolfan ystyried o ddifrif a ddylid eu hysbysu o ganlyniadau methu â gwneud cynnydd boddhaol, a'u cynghori i ystyried terfynu cofrestrriad. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, mae angen i'r adolygiadau chwarterol edrych yn fanwl ac yn feirniadol ar ddatblygiad y sgiliau priodol gan ymgeiswyr, ac ar eu cyflawniadau mewn perthynas â'r cerrig milltir canlynol:

- adolygiad llenyddol ysgrifenedig boddhaol i gefnogi'r cynnig ymchwil. Dylai'r adroddiad ddangos amgyffred boddhaol o'r rheolau ar gyfer cyflwyniadau ysgrifenedig, y gallu i ddadansoddi a chrynhai gwaith wedi ei gyhoeddi, ac i gyfiawnhau'r prosiect ymchwil. Bydd yr amseru ar gyfer hyn yn amrywio gan ddibynnu ar y maes pwnc; fe all fod yn ofyniad llawer llai mewn maes ymchwil seiliedig ar arfer nac mewn maes ymchwil damcaniaethol. Fodd bynnag, dylid pennu dyddiad ar gyfer derbyn adolygiad boddhaol ar ddechrau'r rhaglen, a dylid ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf fan bellaf i ymgeiswyr amser llawn, neu erbyn diwedd yr ail flwyddyn i ymgeiswyr rhan amser.
- Cynnig Ymchwil boddhaol, yn nodi manylion y gwaith sydd i'w gyflawni, y technegau fydd yn cael eu defnyddio, a sut y bydd unrhyw sgiliau'n cael eu hennill, a'r amserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau'r prosiect. Dylai'r amserlen hon fod yn sail ar gyfer asesu a

yw cynnydd gyda'r prosiect yn ôl y disgwyl. Disgwylir y bydd hyn dri mis ar ôl cofrestrriad i ymgeiswyr amser llawn neu chwe mis i ymgeiswyr rhan amser, ac os nad yw cynnig wedi cael ei gymeradwyo gan y tîm goruchwylio erbyn y cam hwn yna dylid monitro cynnydd yr ymgeisydd yn agosach a hysbysu'r Pwyllgor Graddau Ymchwil;

- Ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf i ymgeiswyr amser llawn (ail flwyddyn i ymgeiswyr rhan amser) dylai adroddiad monitro blynyddol, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer y cais am drosglwyddo, gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil.

Yn ystod ail flwyddyn yr astudiaeth (trydydd i ymgeiswyr rhan amser) mae trosglwyddiad o MPhil/PhD i PhD yn garreg filltir fawr. Byddai'n fuddiol gwneud y ceisiadau cyntaf ar gyfer trosglwyddo mor gynnar â phosib yn ystod y flwyddyn hon. Mewn unrhyw achos, rhaid i'r cais hwn fod wedi cael ei wneud o fewn cyfnod o 18 mis wedi cofrestru i ymgeiswyr amser llawn (30 mis i ymgeiswyr rhan amser). Gweler Adran 7 isod.)

Hefyd, erbyn diwedd ail flwyddyn o astudiaeth amser llawn (trydedd flwyddyn i ymgeiswyr rhan amser), dylai ymgeiswyr fod wedi cynhyrchu cynllun ar gyfer y traethawd ymchwil, a dylent fod yn gallu rhoi amcangyfrif mwy dibynadwy ar gyfer y dyddiad cwblhau tebygol.

Hanner ffordd trwy'r drydedd flwyddyn o astudiaeth amser llawn (neu ar ddiwedd y bedwaredd flwyddyn i ymgeiswyr rhan amser), dylai sefydliadau neu ganolfannau ofyn am adolygiad o gynnydd y gwaith ar y traethawd ymchwil.

Erbyn hyn, dylai'r rhan fwyaf o ddrafft cyntaf y traethawd ymchwil fod wedi ei gwblhau, ac fe ddylai'r Cyfarwyddwr Astudiaethau fod wedi ei dderbyn. Dylai bwrdd arholi fod wedi ei bennu a dylai'r dyddiad cyflwyno fod wedi ei gytuno. Dylai'r tîm goruchwylio fod wedi nodi unrhyw rwystrau i gynnydd gyda'r traethawd ac, os oes angen, dylid ceisio cymorth prydlon gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil i oresgyn y rhwystrau hyn. Os na fydd y cerrig milltir disgwyliedig wedi eu cyflawni yna dylid rhoi gwybod i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil.

Rhaid i'r ffurflen adrodd flynyddol sydd ei hangen i gofrestru ar gyfer y bedwaredd flwyddyn i ymgeisydd PhD amser llawn (neu chweched flwyddyn i ymgeiswyr rhan amser) gynnwys cynllun manwl ar gyfer cyflwyno'r traethawd ymchwil gyda cherrig milltir; dylai'r rhan gael eu cadw dan sylw gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil.

Adolygiadau ffurfiol

Dylai ymgeiswyr a'u timau goruchwylio, ble'n bosib, gytuno ar a chwblhau cofnod ar-lein o gyfarfodydd goruchwylio neu hysbysu'r aelod priodol o'r Pwyllgor Graddau Ymchwil pan fydd adolygiadau chwarterol wedi cael eu cwblhau.

Fel arfer nid oes angen adroddiad ffurfiol o ganlyniad yr adolygiad; fodd bynnag, lle mae pryderon difrifol wedi eu codi a heb eu datrys ynghylch cynnydd yna dylid hysbysu'r aelod perthnasol o'r Pwyllgor Graddau Ymchwil am natur y pryderon a'r camau y cytunwyd arnynt i ymdrin â nhw. Mae'n hanfodol, lle mae timau goruchwylio wedi codi pryderon ffurfiol am gynnydd, bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod ymgeiswyr yn deall y sail ar gyfer y dyfarniad ac yn cael cyfle i wneud sylw arno. Dylai'r goruchwylwyr roi rhybudd ysgrifenedig i'r ymgeiswyr am sail eu dyfarniad o ddiffyg cynnydd boddhaol, yn nodi'r camau y cytunwyd arnynt i sefydlu cynnydd boddhaol, amserlen y cynllun, a chanlyniadau canfyddiad ffurfiol pellach o ddiffyg cynnydd boddhaol. Cyfrifoldeb yr aelod priodol o'r Pwyllgor Graddau Ymchwil yw sicrhau bod ymgeiswyr yn cael y cyfle i wneud sylw am y rhybudd, a gellir gwneud hyn yn annibynnol o'r tîm goruchwylio. Mae'n arbennig o bwysig bod timau goruchwylio'n cadw'r ddysgl yn wastad rhwng cymorth

cadarnhaol i ddatblygiad a gwerthusiad beirniadol o gynnydd. Lle nad yw ymgeiswyr yn dangos datblygiad boddhaol, er gwaethaf cymorth ac arweiniad y tîm goruchwylio a'r Pwyllgor Graddau Ymchwil, disgwylir na chaniateir iddynt barhau.

Monitro blynyddol

Yn flynyddol, rhaid i ymgeiswyr a'u timau goruchwylio gwblhau adroddiad i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil yn manylu eu cynnydd yn erbyn yr amcanion a fwriadwyd, a'u hamcanion am y flwyddyn i ddod. Yn ogystal, dylai'r adroddiad dynnu sylw at unrhyw anawsterau neu broblemau a allai fod yn rhwystr i gwblhau'r rhaglen ymchwil yn llwyddiannus. Dylai adroddiadau hefyd roi cyfle i fyfyrwyr roi sylwadau ar yr adnoddau sydd ar gael iddynt, ac ar ansawdd yr oruchwyliaeth y maent yn ei dderbyn.

Adroddiadau monitro blynyddol yw'r cofnod swyddogol o gynnydd myfyrwyr ac mae ail-gofrestru'n ddibynnol ar gael tystiolaeth gan sefydliadau/canolfannau bod myfyrwyr wedi gwneud cynnydd gyda'u hastudiaethau. Ni ellir ail-gofrestru myfyriwr oni bai bod y Brifysgol yn fodlon bod y cynnydd sy'n cael ei wneud yn ddigonol.

Er ei bod yn ofynnol i ymgeiswyr a thimau goruchwylio gwblhau adroddiad yn flynyddol, gall ymgeiswyr gyflwyno adroddiad yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil unrhyw bryd os fyddant yn wynebu problemau nad ydynt yn cael eu datrys yn foddhaol.

Gall methu â chyflwyno adroddiad blynyddol boddhaol neu fethu â datrys unrhyw broblemau sy'n achos pryder yn yr adroddiad yn foddhaol i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil arwain at derfynu'r cofrestrriad. Fel arfer bydd angen tystiolaeth ar Bwyllgorau Graddau Ymchwil o rybuddion ysgrifenedig blaenorol i ymgeiswyr ynghylch cynnydd, cynllun adfer a gytunwyd ar yr adeg honno, a thystiolaeth bellach o ddiffyg cynnydd, cyn y bydd y rhaglen ymchwil yn cael ei therfynu. Mae gan ymgeiswyr hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau o'r fath.

Dylai'r tîm goruchwylio fel arfer gwblhau Adran 1 y ffurflen monitro blynyddol yn gyntaf, gyda'r ymgeisydd yn cael cyfle i wneud sylwadau ar yr hyn sydd wedi'i ysgrifennu gan y tîm goruchwylio wrth gwblhau ei adran ar y ffurflen.

Ceisiadau am Ohirio ac Estyniadau

Gall ymgeiswyr wneud cais am estyniad i uchafswm cyfnod eu hastudiaethau os oes angen. Os yw ymgeisydd yn methu â pharhau â'i ymchwil neu os yw ei berfformiad yn cael ei effeithio'n andwyol gan amgylchiadau eithriadol, gall wneud cais i ohirio ei astudiaethau.

Rhaid cyflwyno'r holl geisiadau am estyniad a gohirio i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil eu hystyried, cyn cyflwyno i Bwyllgor Achosion Arbennig Prifysgol Cymru am ystyriaeth derfynol a chymeradwyaeth.

Ceir canllawiau manwl ar reoli ceisiadau am ohirio ac estyn yn Atodiad 1 y Cod Ymarfer hwn.

7. Trosglwyddo o MPhil/PhD i PhD

Ac eithrio myfyrwyr y caniateir iddynt gofrestru â mynediad uniongyrchol i'r PhD yn sgil cwblhau darn sylweddol o ymchwil yn llwyddiannus o flaen llaw, mae'n ofynnol i bob ymgeisydd fynd trwy broses adolygu ffurfiol (ar ôl 12 mis fel arfer i ymgeiswyr amser llawn a 24 mis i ymgeiswyr rhan amser) cyn y gallant drosglwyddo i raglen PhD, neu barhau â'r rhaglen honno. Yn unol â gofynion y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academiaidd rhaid i'r cais cychwynnol i Drosglwyddo Cofrestriad o MPhil/PhD i PhD gael ei wneud o fewn cyfnod o 18 mis i'r dyddiad cofrestru yn achos ymgeiswyr llawn amser, ac o fewn 30 mis yn achos ymgeiswyr rhan amser. Mae'n ofynnol gan y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academiaidd bod y broses drosglwyddo yn cael ei chwblhau o fewn 24 mis i'r dyddiad cofrestru (36 mis i'r dyddiad cofrestru yn achos ymgeiswyr rhan amser) ac ni fydd yn ystyried ceisiadau nad ydynt wedi cael eu cymeradwyo gan y sefydliad neu ganolfan o fewn yr amserlen hon (Gweler Adran 9 o'r Rheoliadau Graddau Ymchwil).

Diben y broses drosglwyddo yw sicrhau bod ymgeiswyr wedi dangos y datblygiad angenrheidiol yn eu sgiliau i allu cwblhau'r PhD; ni ddisgwylir y bydd yr holl sgiliau sydd eu hangen ar ymgeisydd PhD mewn arholiad wedi eu datblygu'n llawn pan fyddant yn trosglwyddo, fodd bynnag os yw'n amlwg nad yw ymgeiswyr yn dangos y lefel briodol o ddatblygiad sgiliau yna ni ddylent drosglwyddo i gofrestriad PhD, dylent gwblhau gradd MPhil yn lle.

Fel rhan o'r broses drosglwyddo dylai ymgeiswyr gynhyrchu adroddiad ychwanegol o ryw 3000 i 6000 o eiriau ar waith wedi ei gwblhau ac ar fynd, hyfforddiant yr ymgymerydd ag ef, adolygiad llenyddol ac amserlen ymchwil. Gall penodau drafft fod yn rhan o'r adroddiad ysgrifenedig.

Dylai'r adroddiad gael ei asesu gan banel cynnydd sy'n cynnwys ymchwilydd annibynnol a ddylai feddu ar brofiad o oruchwylio o leiaf un ymgeisydd at gwblhau PhD yn llwyddiannus.

Dylai ymgeiswyr roi cyflwyniad ar lafar i'r panel cynnydd, ac ymateb i gwestiynau a godir gan aelodau'r panel.

Cyfrifoldeb ymgeiswyr a'r timau goruchwylio yw dechrau'r broses drosglwyddo trwy gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil. Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Astudiaethau yw sefydlu'r panel cynnydd.

Yn ei adroddiad i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil fe all y panel cynnydd argymhell:

- trosglwyddo'r ymgeisydd i raglen PhD;
- gohirio'r penderfyniad am gyfnod diffiniedig i ganiatáu i'r ymgeisydd fodloni'r anghenion a nodir gan y panel cynnydd;
- gwrthod cymeradwyo'r trosglwyddiad. Yn gyffredinol ni fydd argymhelliad o'r fath ond yn cael ei wneud os fydd ymgeiswyr eisoes wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig ar gam cynharach nad yw eu cynnydd yn foddhaol.

Dylid rhoi rhesymau llawn yn cefnogi'r argymhelliad yn ysgrifenedig i ymgeiswyr.

Bydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil yn penderfynu'n derfynol ynghylch pob argymhelliad i drosglwyddo. Noder: Os yw ymgeisydd wedi cael caniatâd i gofrestru'n uniongyrchol ar PhD nid yw proses ffurfiol o drosglwyddo cofrestriad yn berthnasol. Fodd bynnag, dylid ystyried bod yr adolygiad blynyddol cyntaf (ail i ymgeiswyr rhan amser) mor bwysig ag adolygiad trosglwyddo.

8. Asesu

Mae'r gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer asesu graddau ymchwil yn cael eu nodi yn y Rheoliadau. Mae'r asesiad terfynol ar gyfer pob gradd ymchwil ar ffurf arholiad llafar yn seiliedig ar draethawd ymchwil y myfyriwr, ac mae'r meini prawf ar gyfer dyfarnu'r radd briodol wedi'u cynnwys yn Llawlyfr Arholwyr a Chadeiryddion Byrddau Arholi.

8.1 Cyflwyno'r traethawd ymchwil

I fod yn gymwys i gyflwyno traethawd ymchwil, mae'n rhaid i ymgeiswyr graddau ymchwil fod wedi cofrestru ar y radd y bwriedir cyflyno ar eich chyfer, a rhaid iddynt fod wedi talu pob ffi sy'n ddyledus (gan gynnwys unrhyw ffi ailholi sy'n ofynnol) a bod wedi bodloni pob rhwymedigaeth ariannol arall. Mae'r bwriad i gyflwyno traethawd ymchwil i'w arholi yn cael ei anfon gan y tîm goruchwylio sy'n cyflwyno'r enwebiadau i'r bwrdd arholi at y Pwyllgor Graddau Ymchwil i ddechrau.

Lle mae ymgeisydd a thîm goruchwylio'n anghytuno ynglŷn ag a yw traethawd yn barod i'w gyflwyno a'i arholi, ac mae'r ymgeisydd am gyflwyno'r traethawd yn groes i gyngor a barn ei dîm/ei thîm goruchwylio, rhaid i'r ymgeisydd ddarparu datganiad ysgrifenedig i Gadeirydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil cyn cyflwyno yn nodi ei fwriad/ei bwriad i gyflwyno. Bydd Cadeirydd y bwrdd arholi'n hysbysu arholwyr o farn y tîm goruchwylio cyn yr arholiad.

O fewn yr uchafswm cyfnod cofrestru, rhaid i fyfyrwyr gyflwyno i'r sefydliad neu ganolfan ddau gopi o'r traethawd ymchwil wedi'u rhwymo dros dro neu'n barhaol a deunydd ategol, ynghyd â chopi rhydd ychwanegol o'r crynodeb wedi'i drawsgrifio ar y ffurflen briodol. Os yw natur y gwaith yn ei gwneud yn anodd cydymffurfio â'r gofyn am gopïau o ddeunydd ar wahân, rhaid i ymgeiswyr geisio cyngor gan y Gofrestrfa Academaidd ynglŷn â'r nifer o gopïau. Ni chaiff ymgeiswyr newid, ychwanegu at neu ddileu o'r traethodau hyn ar ôl iddynt gael eu cyflwyno a chyn iddynt gael eu harholi. Fodd bynnag, os fydd ymgeiswyr yn canfod bod defnydd wedi cael ei adael allan o'r copïau o'r traethawd a anfonwyd at yr arholwyr, yna gall Cadeiryddion y byrddau arholi gymryd camau i ganiatáu anfon y defnydd sydd ar goll at yr arholwyr. Cydlynir y trefniadau ar gyfer yr arholiadau a'r holl ohebiaeth sy'n gysylltiedig â hynny gan Gofrestrfa Academaidd y sefydliad neu gan awdurdod gweinyddol priodol Prifysgol Cymru yn achos ymgeiswyr mewn canolfannau.

PhD yn seiliedig ar ymarfer

Mae'r Brifysgol yn diffinio 'traethawd' gradd PhD yn seiliedig ar ymarfer fel corff sylweddol o waith creadigol, curadurol neu gyhoeddiedig ar ffurf arddangosfa / cynnyrch cyfryngol / perfformiad ac elfen ysgrifenedig sy'n darparu cyd-destun hanesyddol, damcaniaethol, beirniadol a/neu ddylunio i'r gwaith creadigol. Rhaid i'r ddwy elfen gael eu 'cyflwyno' ar yr un pryd a rhaid i'r gwaith ar yr elfen greadigol orffen pan gaiff y gwaith ysgrifenedig ei gyflwyno i'w arholi.

8.2 Arholiadau

Arholir ymgeiswyr ar gyfer graddau MPhil a PhD ar sail eu gwaith. Mae hyn yn golygu bod yr arholwyr yn adolygu ac adrodd ar y traethawd ac unrhyw bortffolio cysylltiedig yn annibynnol, wedi ei ddilyn gan fwrdd arholi'n cynnal arholiad llafar. Fodd bynnag, yn achos traethawd sy'n cael ei ailgyflwyno, gellir hepgor yr arholiad llafar yn ôl disgrisiwn y bwrdd arholi. Gwneir hyn ar sail arholiad llafar boddhaol yn dilyn y cyflwyniad cyntaf. Mae dyddiad yr arholiad fel arfer o fewn deuddeg wythnos waith o'r dyddiad y derbyniodd yr arholwyr y traethawd ac unrhyw bortffolio cysylltiedig. Os caiff y cyflwyniad ei ohirio yna gall ymrwymadau amser aelodau'r bwrdd arholi atal arholiad llafar cynharach rhag cael ei gynnal. Mewn achosion lle cafwyd oedi sylweddol o ran cyflwyno ar ôl penodi'r bwrdd arholi, mae'n arfer da i'r awdurdodau academaidd sicrhau y bydd aelodau'r bwrdd ar gael ar gyfer yr arholiad llafar o fewn cyfnod derbynol o amser. Dylid ceisio cyngor y Pwyllgor Graddau Ymchwil os ystyrir bod angen penodi arholwr arall. Noder: Ni ellir gohirio'r arholiad llafar am gyfnod hwy na 12 mis o ddyddiad cyflwyno'r traethawd.

8.3 Y Bwrdd Arholi

Fel arfer mae bwrdd arholi'n cynnwys Cadeirydd annibynnol, arholwr mewnol ac arholwr allanol. Fodd bynnag mewn rhai achosion, a nodir yn y rheoliadau (e.e. os yw'r ymgeisydd yn aelod o staff academaidd y ganolfan dan sylw, neu os nad yw'r arbenigwr mwyaf addas ar bwnc y traethawd ymchwil yn meddu ar gefndir academaidd) dylai'r bwrdd arholi gynnwys y Cadeirydd (fel uchod) ynghyd â dau arholwr allanol.

Mae arholwyr mewnol yn staff naill ai yn y sefydliad neu ganolfan neu yn un o ganolfannau cydweithredol neu sefydliadau achrededig Prifysgol Cymru. Er nad oes cyfyngiad penodol ar y nifer o weithiau y gall aelod o staff weithredu fel arholwr mewnol, mae'n arfer da i amrywio'r person a benodir i'r rôl. Mae arholwyr allanol o'r tu allan i Brifysgol Cymru a'r canolfannau.

Mae cyfansoddiad y bwrdd arholi'n cael ei drefnu gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil ar ôl ymgynghoriad ag ymgeiswyr a thimau goruchwyllo, ac yn ddarostyngedig ar gadarnhad gan y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd. Dylid cyflwyno'r bwrdd arholi arfaethedig i'r Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd rhyw dri mis cyn cyflwyniad disgwylid y traethawd.

Bydd y Cadeirydd, a all fod yn aelod o'r tîm goruchwyllo neu beidio, yn uwch aelod o staff academaidd wedi ei gymeradwyo i'r diben gan y sefydliad neu ganolfan. Ni ddylai'r Cadeirydd fod wedi cael unrhyw gysylltiad blaenorol â gwaith yr ymgeisydd ac ystyrir ei fod yn arfer da i benodi Cadeirydd o wahanol ran o'r sefydliad neu ganolfan i'r ymgeisydd. Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw sicrhau bod yr arholiad yn cael ei gynnal mewn dull priodol, yn unol â'r gweithdrefnau a sefydlwyd i'r diben hwnnw.

Os fydd yn amhosib penodi arholwr mewnol priodol o'r tu fewn i'r ganolfan, gall y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd benodi arholwr mewnol o ganolfan neu sefydliad arall sy'n achrededig gan Brifysgol Cymru.

Penodi Cadeirydd a'i Swyddogaeth

Bydd y Cadeirydd, na fydd o bosibl yn aelod o'r tîm goruchwyllo, yn uwch aelod o staff academaidd a gymeradwywyd i'r pwrpas hwn gan y sefydliad neu'r ganolfan. Ni ddylai'r Cadeirydd fod ag unrhyw gysylltiad blaenorol gyda gwaith yr ymgeisydd ac ystyrir ei fod

yn ymarfer da penodi Cadeirydd o ran wahanol o'r sefydliad neu'r ganolfan i'r ymgeisydd. Os nad yw hyn yn bosibl ac os oes gan y Cadeirydd gyfrifoldeb rheolwr llinell uniongyrchol dros yr arholwr mewnol, rhaid cyflwyno datganiad o Wrthdaro Buddiannau i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil pan fydd cyfansoddiad y bwrdd arholi dan ystyriaeth.

Prif swyddogaeth a chyfrifoldeb y Cadeirydd yw sicrhau bod y broses arholi'n drylwyr, yn gyson ac yn deg, a bod yr arholiad yn cael ei gynnal mewn modd priodol, yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu.

Yn hyn o beth, dylai'r Cadeirydd sicrhau'r canlynol:

- ei fod yn bresennol yn y cyfarfod cyn-arholi gyda'r arholwyr i strwythuro'r agenda ar gyfer yr arholiad a chytuno pwy fydd yn arwain ar bob pwnc a chwestiwn;
- ar ddechrau'r arholiad dylai'r Cadeirydd gyflwyno'r arholwyr a'r ymgeisydd ac egluro ei rôl yn y broses arholi a sut fydd yr arholiad yn mynd rhagddo;
- bod yr arholwyr a'r ymgeisydd yn fodlon gyda'r ystafell a'r amgylchiadau ar gyfer yr arholiad ac yn barod i fynd yn eu blaen;
- yn ystod yr arholiad bod yr agenda y cytunwyd arno yn y rhag-gyfarfod yn cael ei ddilyn a bod yr arholwyr yn fodlon bod eu cwestiynau a'u pryderon yn cael eu trin;
- os yw'r Cyfarwyddwr Astudiaethau neu unrhyw oruchwyliwr yn bresennol yn yr arholiad, na fydd unrhyw gyfathrebu na chymorth yn cael ei roi i'r ymgeisydd;
- ar ddiwedd yr arholiad, sicrhau bod yr arholwyr a'r ymgeisydd wedi cael cyfle i holi unrhyw gwestiynau;
- cyfleu argymhelliad y bwrdd arholi i'r ymgeisydd ac esbonio'r camau nesaf yn y broses i gymeradwyo'r argymhelliad hwnnw;
- bod arholwyr yn ymwybodol o'r canlyniadau sydd ar gael iddynt dan reoliadau'r Brifysgol a'r angen i dystio eu hargymhelliad yn yr adroddiadau;
- bod yr arholwr allanol yn cael ei atgoffa o'r angen am adroddiad manwl ar yr arholiad llafar.

8.4 Meini prawf ar gyfer penodi arholwyr

Dylai'r Pwyllgor Graddau Ymchwil sicrhau bod yr arholwyr arfaethedig:

- yn ymwybodol o natur a diben y radd y mae ymgeiswyr yn cael ei arholi amdani a'r meini prawf y mae ymgeiswyr yn cael eu hasesu arnynt;
- wedi derbyn copi o grynodedb y traethawd;
- yn meddu ar wybodaeth ac arbenigedd yn y maes ymchwil yn ogystal ag arbenigedd mewn arholi graddau ymchwil;
- yn barod i arholi'r traethawd cyfan.

Nid yw'n dderbyniol i benodi arholwr sydd ddim yn barod i wneud dyfarniad ar y traethawd cyfan, hyd yn oed os yw ei arbenigedd penodol ef neu hi yn fwy perthnasol i rai rhannau o'r gwaith nac eraill.

Dylai'r Pwyllgor Graddau Ymchwil hefyd sicrhau bod yr arholwr allanol:

- yn (neu wedi bod tan yn ddiweddar) aelod o staff academaidd mewn Sefydliad Addysg Uwch cydnabyddedig yn y DU, neu yn rhywle arall, ond nid mewn sefydliad neu ganolfan, neu yn dal swydd yr ystyrir sy'n gyfwerth â rôl academaidd yn y maes disgyblaeth (e.e. curadur amgueddfa neu oriel fawr, deiliad swydd uchel mewn sefydliad crefyddol, aelod o staff ymchwil mewn sefydliad ymchwil cydnabyddedig gan brifysgol neu gan y llywodraeth). Os yw'r arholwr allanol wedi ymddeol yn ddiweddar, rhaid iddo barhau i fod yn weithgar yn ei faes;
- nad yw'r arholwr allanol wedi cyfathrebu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag ymgeiswyr ynglŷn â'u hymchwil;
- nad yw wedi cofrestru ar radd uwch;
- ei fod yn awdurdod cydnabyddedig yn y maes, gyda thystiolaeth o ysgolheictod neu ymchwil uwch diweddar;
- ei fod wedi cyhoeddi'n helaeth mewn cyfnodolion ym maes pwnc cyffredinol y traethawd;
- bod ganddo brofiad o arholi graddau ymchwil ôl-raddedig;
- nad yw wedi arholi mwy na dwy radd neu PhD yn y sefydliad neu ganolfan yn y pum mlynedd flaenorol.

Ni ellir penodi arholwr allanol i fwrdd arholi graddau ymchwil mewn sefydliad neu ganolfan benodol fwy nac unwaith mewn blwyddyn a dim mwy na dwywaith mewn pum mlynedd.

Dylai Pwyllgorau Graddau Ymchwil ar bob achlysur osgoi penodiadau sy'n awgrymu dwyochredd. Yn ogystal, dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw aelodau unigol o staff academaidd mewn unrhyw ganolfan benodol neu adran academaidd benodol mewn sefydliad fel arfer yn cael eu penodi fel arholwyr mewnlol ar gyfer arholiadau graddau ymchwil fwy na dwywaith mewn unrhyw gyfnod o 12 mis.

Os oes gan arholwr mewnlol berthynas reoli â'r Cyfarwyddwr Astudiaethau, rhaid cymryd gofal i sicrhau annibyniaeth lwyr yr arholwr. Mewn unrhyw achos, ni ddylid trafod y prosiect ymchwil rhwng yr arholwyr a'r tîm goruchwylio na'r ymgeisydd yn dilyn cytundeb gan yr arholwr mewnlol i wasanaethu yn y rôl.

8.5 Y broses arholi

Yr adroddiadau ysgrifenedig

Cyn yr arholiad llafar, mae'n ofynnol bod arholwyr yn anfon arfarniad annibynnol ysgrifenedig o'r traethawd at y Gofrestrfa Academaidd yn defnyddio'r ffurflen a ddarperir i'r diben hwn. Ni ddylai arholwyr gyfathrebu'n uniongyrchol rhwng ei gilydd cyn i'r Gofrestrfa dderbyn eu hadroddiadau annibynnol. Os oes gan arholwr bryder am y traethawd cyn cyflwyno'r adroddiadau annibynnol yna dylai drafod hynny gyda Chadeirydd y bwrdd arholi'n unig. Yn ogystal, cyn cyflwyno'r adroddiad, ni ddylai arholwr weld adroddiad arholwr arall ar y traethawd.

PhD yn seiliedig ar ymarfer

Rhaid i'r arholwyr fod wedi darllen yr elfen ysgrifenedig o'r gwaith a'i gadw wrth law i gyfeirio ato wrth arholi'r elfen greadigol. Rhaid i'r arholwr allanol a'r arholwr mewnol lunio adroddiad ysgrifenedig yn annibynnol ar y gwaith cyflawn (Adrannau 1.1. a 2 o ffurflen adroddiad RDB4 yn eu tro) a chyflwyno eu hadroddiadau i'r sefydliad neu ganolfan o leiaf un wythnos cyn yr arholiad llafar. Ni chaniateir i arholwyr gyfathrebu â'i gilydd tan i'r adroddiadau ar y gwaith gael eu derbyn. Argymhellir, lle bo modd, fod yr arholwr allanol a mewnol yn gweld yr elfen greadigol o'r gwaith ar wahân.

Yr arholiad llafar

Dylid cynnal cyfarfod rhagarweiniol o'r bwrdd arholi cyn yr arholiad llafar i ystyried strwythur y cwestiynu, i gadarnhau barn gychwynol yr arholwyr ac i benderfynu ar y prif bwyntiau i'w codi yn ystod yr arholiad (a ddylai gynnwys unrhyw bryderon a godwyd yn flaenorol yn ysgrifenedig gan y Cyfarwyddwr Astudiaethau). Caiff ymgeiswyr benderfynu a fydd goruchwylwyr yn bresennol yn ystod yr arholiad llafar ai peidio, ond os ydynt yn bresennol caniateir iddynt siarad yn unig mewn ymateb i gwestiwn uniongyrchol gan yr arholwyr. Mae'n arfer da gofyn yn ysgrifenedig i ymgeiswyr a ydynt yn cytuno i unrhyw aelod o'r tîm goruchwyllo fod yn bresennol.

Fel arfer cynhelir yr arholiad llafar yn y sefydliad neu ganolfan. Mewn achosion eithriadol, a chyda chymeradwyaeth y Gofrestrfa Academaidd, gellir cynnal yr arholiad llafar mewn man arall neu trwy gyswllt fideo. O ran y dewis olaf, rhaid i'r Cadeirydd sicrhau bod yr ymgeisydd yn medru cyfathrebu â'r bwrdd arholi yn unig yn ystod yr arholiad. Rhaid i'r trefniadau ar gyfer cynnal arholiadau llafar drwy gyswllt fideo neu ddulliau electronig gydymffurfio â Chanllawiau'r Brifysgol ar gyfer Cynnal Arholiad Llafar (Viva Voce) drwy Ddulliau Electronig fel y cynhwysir yn Atodiad 2.

Yn achos ymgeiswyr sy'n byw fel arfer y tu allan i'r Deyrnas Unedig, gellir gohirio'r arholiad llafar tan iddynt ddychwelyd i'r wlad hon, ar yr amod eu bod yn rhoi dim llai na deufis o rybudd ysgrifenedig i'r Gofrestrfa Academaidd o'r dyddiadau y byddant ar gael ar gyfer arholiad llafar yn y wlad hon.

Pan fydd y bwrdd arholi'n ymgynnull ar ddiwrnod yr arholiad, rhaid i adroddiadau ysgrifenedig annibynnol pob arholwr fod ar gael i holl aelodau'r bwrdd, a'r Cyfarwyddwr Astudiaethau, os yw'n bresennol. Dylai'r arholiad llafar ymwneud â phob agwedd ar y traethawd ymchwil, yn enwedig y pwyntiau a ddewiswyd gan yr arholwyr yn eu cyfarfod rhagarweiniol. Dylid rhoi cyfle i ymgeiswyr wneud sylwadau am unrhyw bwyntiau anffafriol ac ar unrhyw newidiadau sylweddol mae'r arholwyr yn bwriadu'u hargymell.

Ar ddechrau arholiadau, dylai Cadeiryddion sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu cyflwyno i'r arholwyr, a bod yr awyrgylch yn weddol hamddenol fel nad yw ymgeiswyr yn teimlo'n ofnus yn ystod y digwyddiad.

Mae'n bosibl weithiau y bydd arholwyr yn dymuno nodi eu safbwynt cychwynol am y traethawd ymchwil ar ddechrau'r arholiad llafar, fel bod gan ymgeiswyr gyfle i'w herio; fodd bynnag, ni ddylid rhoi unrhyw arwydd mai mater o ffurfioldeb yw'r arholiad llafar.

Mae'n ofynnol i arholwyr fodloni'u hunain yn yr arholiad llafar mai gwaith gwreiddiol yr ymgeisydd yw'r traethawd ymchwil.

Ar ddiwedd yr arholiad llafar, mae'n ofynnol i ymgeiswyr ac unrhyw aelodau o'r tîm goruchwyllo adael. Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod yn fras i'r ymgeiswyr pryd y disgwylir i'r canlyniad gael ei gyhoeddi, hynny yw, yr argymhelliad sydd i'w wneud i'r Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd.

Adroddiad yr Arholwr Allanol ar yr Arholiad Llafar

Rhaid i arholwyr allanol ysgrifennu adroddiad yn benodol ar berfformiad yr ymgeisydd yn yr arholiad llafar. Mae'r arholiad llafar yn rhan allweddol o'r broses ar holi ar gyfer dyfarniad ymchwil ac mae arholwyr allanol yn chwarae rhan hanfodol yn sicrhau bod ansawdd a safonau'r dyfarniadau'n cael eu cynnal. Felly gofynnir i arholwyr allanol lunio adroddiad a ddylai ddatgan yn glir y materion a'r cwestiynau a drafodwyd yn yr arholiad llafar a sut y cyfrannodd ymateb a pherfformiad yr ymgeisydd i ganlyniad cyffredinol ac argymhelliad yr arholiad.

Cyfathrebu canlyniad yr arholiad

Dylai'r Cadeirydd gytuno â'r arholwyr ynghylch cyhoeddi canlyniad yr arholiad i'r ymgeisydd. Y disgwyliad arferol yw y bydd hyn yn digwydd ar ddiwrnod yr arholiad yn dilyn yr arholiad llafar. Mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft os nad yw'r arholwyr yn gallu cytuno ar y canlyniad, mae'n bosibl y bydd angen gohirio'r argymhelliad. Yn yr achos hwn dylid hysbysu ymgeiswyr o'r gwrthdaro ar ddiwrnod yr arholiad, a'r gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu i'w ddatrys. Ar ddiwedd yr arholiad, mae'n ofynnol i'r arholwyr gyflwyno adroddiad yn nodi'u rhesymau am yr argymhelliad. Yn yr adroddiad dylai arholwyr egluro'n fanwl sut mae gwaith yr ymgeisydd yn cwrdd â'r gofynion o ran gwreiddioldeb ac ysgolheictod, neu sut y methodd â gwneud hynny. Rhaid cynnwys cyfarwyddiadau llawn ynghylch unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r traethawd, a rhaid trefnu bod y gofynion hyn ar gael i'r ymgeiswyr. Os ceir anghytuno, dylai arholwyr gynnig adroddiadau ac argymhellion ar wahân i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil o fewn deng diwrnod o'r arholiad llafar. Yn dilyn y drafodaeth breifat rhwng yr arholwyr, dylid gwahodd ymgeiswyr (a'r Cyfarwyddwr Astudiaethau, os mai dyna yw dymuniad yr ymgeiswyr) i ddychwelyd i'r ystafell arholi. Dylid cyfathrebu argymhelliad y bwrdd arholi i'r ymgeiswyr a bydd hyn yn cael ei ystyried a'i gadarnhau gan y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd yn gyntaf ac yna gan Fwrdd Arholi Prifysgol Cymru. Rhaid i'r argymhelliad gynnwys datganiad clir o blith y rhai sydd ar gael yn y rheoliadau. Os yw'n ofynnol gwneud cywiriadau neu ailgyflwyno, dylid nodi hefyd yr isafswm cyfnod cyn y gellir ailgyflwyno. Rhaid cael arwyddion clir hefyd o'r hyn y mae'n rhaid i'r ymgeiswyr ei gwblhau cyn ailgyflwyno, a ffurf yr ailgyflwyno. Mewn amgylchiadau o'r fath, gellir cynnal arholiad llafar pellach, neu beidio, yn ôl disgrisiwn y bwrdd arholi. Rhaid i arholwyr ddarparu adroddiad llawn os yw'r arholiad yn ymwneud ag ailgyflwyno traethawd ymchwil, pa un a yw'r angen am ail arholiad llafar wedi'i hepgor ai peidio.

Fe all fod yn ofynnol i ymgeiswyr dalu ffi am y cyfnod ailgyflwyno yn ôl penderfyniad y sefydliad / canolfan astudio. Yn ystod y cyfnod ailgyflwyno, dylai ymgeiswyr barhau i dderbyn goruchwyliaeth ar lefel briodol fel y'i diffinnir gan y sefydliad / canolfan.

Yn dilyn yr arholiad llafar, rhaid gadael pob copi o'r traethawd ymchwil gyda Chadeirydd y bwrdd arholi i'w dychwelyd i'r Gofrestrfa Academaidd ynghyd â'r ffurflen briodol.

Canllawiau i arholwyr ar draethodau sy'n cael eu hailgyflwyno

Mae dyfarniadau graddau ymchwil ymgeiswyr y Brifysgol yn cael eu harholi ar sail eu gwaith. Mae hyn yn cynnwys arholwyr yn adolygu ac adrodd yn annibynnol ar y traethawd, wedi ei ddilyn gan arholiad llafar yn cael ei gynnal gan fwrdd arholi. Os fydd ymgeisydd wedi ailgyflwyno ei draethawd ar gyfer arholi rhaid i adroddiadau arholwyr

fod yn hollol gynhwysfawr ac mor fanwl â phosib. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle nad oes angen ail arholiad llafar, gan y bydd adroddiadau'r arholwr yn sail tystiolaeth i argymhelliad ar gyfer gwneud dyfarniad. Yn benodol, rhaid i arholwyr gyfeirio'n eglur a manwl at y cywiriadau, newidiadau ac addasiadau oedd eu hangen yn dilyn y cyflwyniad cyntaf, a dangos a yw'r traethawd diwygiedig bellach yn bodloni'r gofynion ar gyfer gwneud dyfarniad.

9.0 Hawliau a chyfrifoldebau ymgeiswyr

9.1 Hawliau a chyfrifoldebau

Bydd canolfannau'n gyfrifol am hysbysu ymgeiswyr am eu hawliau a'u cyfrifoldebau pan fyddant yn cofrestru bob blwyddyn. Bydd gwybodaeth o'r fath yn ystyried disgwyladau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, y Pwyllgor Cenedlaethol Ôl-raddedig yn ogystal â gofynion deddfwriaethol neu ofynion eraill.

9.2 Gwahardd y defnydd o brawf ddarllenwyr proffesiynol

Rhaid i ymgeiswyr sy'n cyflwyno traethodau ar gyfer dyfarniad gradd uwch gan y Brifysgol gynnwys yn y traethawd ddatganiad, wedi ei arwyddo gan yr ymgeisydd, yn dangos i ba raddau y mae'r gwaith a gyflwynir yn ganlyniad i ymchwil yr ymgeisydd ei hun. Mae dyfarniad gradd ymchwil yn dangos gallu'r deiliad i greu a dadansoddi gwybodaeth newydd, trwy ymchwil wreiddiol neu ysgolheictod uwch arall, o ansawdd i fodloni adolygiad gan gymheiriaid, ehangu rheng flaen y ddisgyblaeth, a haeddu cael ei gyhoeddi.

Gan hynny, nid yw'r Brifysgol yn caniatáu defnyddio prawf ddarllenwyr proffesiynol, na throi at wasanaethau asiantaethau 'rhith-awduron' (er enghraifft wrth baratoi traethodau), nac asiantaethau prosesu geiriau allanol sy'n cynnig cywiriadau neu welliannau Cymraeg. Bydd unrhyw ymgeiswyr sy'n defnyddio gwasanaethau asiantaethau o'r fath yn rhoi eu hunain mewn perygl o dderbyn cosb academaidd yn unol â rheoliadau a gweithdrefn arfer annheg y Brifysgol.

9.3 Seibiant

Disgwylir i ymgeiswyr mewnlawn amser llawn ymroi i'w rhaglenni am 35 awr yn ystod yr wythnos waith arferol.

Os fydd ymgeiswyr i ffwrdd o'r campws heb hysbysu'r Cyfarwyddwr Astudiaethau ymlaen llaw, yna dylent hysbysu eu Cyfarwyddwr Astudiaethau o hyd yr absenoldeb, ac unrhyw reswm dros yr absenoldeb.

I ymgeiswyr rhan amser, mae'r un rheolau'n berthnasol, ac eithrio bod gofyn iddynt fod yn bresennol am lai o amser; disgwylir iddynt ymgymryd â gwaith sy'n uniongyrchol berthnasol i'w rhaglen am 17 awr yn ystod yr wythnos waith arferol, i'w gytuno gyda Chyfarwyddwr Astudiaethau'r ymgeisydd. Ceir manylion gofynion mynychu i ymgeiswyr allanol yn adran 4.5.

Ym mhob achos, dylid trafod trefniadau ar gyfer cymryd seibiant gyda'r Cyfarwyddwr Astudiaethau.

9.4 Cyflogaeth

Gall ymwneud â gwaith academaidd fod o fudd i ddatblygiad gyrfa rhai ymgeiswyr, ar yr amod nad yw hyn yn amharu ar gynnydd eu rhaglen astudio. Gyda chymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Astudiaethau gall ymgeiswyr llawn amser ymgymryd â hyd at chwe awr o waith academaidd â thâl neu'n ddi-dâl, sydd ddim yn uniongyrchol yn gysylltiedig â'u rhaglen yn ystod yr wythnos waith arferol. Rhaid i ymgeiswyr rhyngwladol sicrhau hefyd eu bod yn bodloni unrhyw ofynion a nodir gan eu fisa.

9.5 Apeliadau

Mae gan ymgeiswyr yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau'n ymwneud â therfynu astudiaethau neu, mewn amgylchiadau sefydledig penodol, yn erbyn canlyniad y broses arholi a dylent geisio cyngor gan y Gofrestrfa Academaidd ynglŷn â'r weithdrefn gywir i'r diben hwn.

9.6 Cwynion

Gall ymgeiswyr wneud cwynion a fydd yn cael eu clywed gan y ganolfan yn unol â'r weithdrefn a sefydlwyd i'r diben hwnnw. Y Gofrestrfa Academaidd fydd yn gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth ar sut y gellir gwneud cwynion, a sut fydd cwynion yn cael eu clywed, ar gael i'r holl ymgeiswyr am raddau ymchwil.

10. Adroddiadau Sefydliadol Blynyddol

Dylai Pwyllgorau Graddau Ymchwil dderbyn adroddiadau ysgrifenedig blynyddol gan swyddog cyfrifol y sefydliad neu ganolfan ar gynnydd cyffredinol ymgeiswyr graddau ymchwil, gan gynnwys cofrestrïadau, cyflawniadau, ac achosion o dynnu yn ôl / gohirio, presenoldeb goruchwylwyr ac ymgeiswyr mewn rhaglenni hyfforddi, tynnu sylw at unrhyw arferion neu hyfforddi arloesol y maent yn teimlo sydd wedi helpu ansawdd eu rhaglenni, ac amlygu unrhyw broblemau ansawdd cyffredinol yn yr amgylchedd ymchwil y mae angen mynd i'r afael â nhw Bydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil yn cyflwyno adroddiad cyffredinol bob blwyddyn i'r Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd ar y materion hyn.

Atodiad 1

Canllawiau ar Reoli Estyniadau a Gohiriadau

Ceisiadau am Estyniad a Gohiriad:

Gall ymgeiswyr wneud cais am estyniad i'w huchafswm cyfnod astudio os oes angen. Ble na all ymgeiswyr barhau gyda'u hymchwil neu os amharir ar berfformiad ymgeiswyr gan amgylchiadau eithriadol, fe allant wneud cais i ohirio eu hastudiaethau.

Rhaid i bob cais am estyniad a gohiriad gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil ar gyfer ei ystyried, cyn ei gyflwyno i Bwyllgor Achosion Arbennig Prifysgol Cymru i gael ei ystyried a'i gymeradwyo'n derfynol.

Am wybodaeth bellach ynghylch ar ba sail y bydd y Brifysgol yn caniatáu cais, edrychwch ar ganllawiau'r Brifysgol ar geisiadau am Estyniad a Gohiriad:

<http://www.wales.ac.uk/en/Registry/CollaborativeCentres/RegulationsandProtocols/SpecialCasesCopy.aspx>

Rôl y Pwyllgor Graddau Ymchwil

Mae'r Pwyllgor Graddau Ymchwil yn chwarae rôl hollbwysig yn dyrchafu'r dystiolaeth a'r rhesymeg dros geisiadau estyniad a gohiriad, a gwneud argymhellion i'r Brifysgol ynghylch a yw'n cymeradwyo'r cais. Y Bwrdd Graddau Ymchwil sy'n gyfrifol hefyd am reoli'r broses estyniadau a gohiriadau a sicrhau bod yr ymgeiswyr a'r timau goruchwylio yn gweithio'n effeithiol tuag at gwblhad a chyflwyniad prydlon.

Dylai ymgeiswyr a thimau goruchwylio nodi'r canlynol:

- Bydd y Brifysgol yn derbyn ceisiadau am estyniad ac yn eu hystyried yn ymatebol, ond ni chaniateir ceisiadau am estyniad yn awtomatig ac fel mater o hawl a rhaid gwneud achos;
- Byddai'r Brifysgol yn disgwyl i arfer gorau ddangos bod **un** cais am estyniad neu ohiriad yn ddigon yn y rhan fwyaf o amgylchiadau a, ble y gwneir ceisiadau lluosog a pharhaus, rhaid i'r dogfennau fod yn bendant ac yn rhoi sylw i'r rhesymau am hyn;
- Rhaid ystyried ceisiadau'n drwyadl a rhaid gallu dangos ac argyhoeddi'r Pwyllgor Graddau Ymchwil a'r Pwyllgor Achosion Arbennig eu bod yn gymesur a theg;
- Rhaid i'r holl waith papur a gyflwynir i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil a'r Pwyllgor Achosion Arbennig fod yn gyflawn, cynhwysfawr, cywir ac eglur;
- Rhaid i geisiadau ddangos tystiolaeth eglur o natur y cais a chynnwys dogfennau cefnogol priodol;
- Rhaid i dimau goruchwylio ddangos eu cefnogaeth neu eu diffyg cefnogaeth i gais yn glir. Gyda cheisiadau am estyniad, dylai'r tîm goruchwylio fynegi'n glir sut mae'r cyfnod y gwneir cais amdano'n ddichonadwy i alluogi ymgeiswyr i gwblhau a

chyflwyno eu traethawd ymchwil mewn modd amserol, gan ystyried tystiolaeth yr ymchwil a gwblhawyd hyd yma a'r ymchwil i gael ei gwblhau;

Mae ymgeiswyr hefyd yn gymwys i wneud cais i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil a'r Pwyllgor Achosion Arbennig am estyniad yn ystod y cyfnod parhad neu'r cyfnod ail gyflwyno.

Ail ddechrau Ymchwil yn dilyn Gohiriad:

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr sydd wedi cael caniatâd am gyfnod o ohiriad yn cael cefnogaeth i ddod yn ôl at eu rhaglen ymchwil, yn arbennig os yw'r absenoldeb wedi bod am gyfnod o amser hwy na chwe mis. Pan fyddant yn ailgydio yn eu rhaglen ymchwil, dylai ymgeiswyr ddilyn cynllun gweithredu sy'n mynegi'n glir y camau y bydd ymgeiswyr yn eu cymryd i ailgydio'n llawn yn eu hymchwil ac sy'n sicrhau y byddant yn ei gwblhau yn brydlon.

I helpu gyda'r broses hon ac er mwyn tynnu ar yr arfer gorau o fewn y sector, mae'n ofynnol gan y Brifysgol bod yr ymgeisydd a'r tîm goruchwyliol **ill dau** yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer ail gysylltu am gyfnod dechreuol o chwe mis. Mae gan y Brifysgol brofforma (SC1) ar waith yn benodol i'r diben hwn.

Rôl y Pwyllgor Graddau Ymchwil yw monitro'n rhagweithiol y broses o ailgydio mewn astudio a sicrhau bod ymgeiswyr a'u timau goruchwyliol yn gweithio'n effeithiol.

Atodiad 2

Canllawiau ar gyfer Cynnal Arholiad Llafar (Viva Voce) drwy Ddulliau Electronig

Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â'r Rheoliadau Academaidd Cyffredin a Chodau Ymarfer Prifysgol Cymru priodol ar gyfer graddau ymchwil.

Cyflwyniad

Mae'r arholiad llafar (a elwir yn gyffredin yn *viva*) yn nodwedd hanfodol o'r broses o arholi ymgeiswyr am ddyfarniadau gradd ymchwil ym Mhrifysgol Cymru. I'r perwyl hwn, mae Rheoliadau Academaidd Cyffredin y Brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol cynnal arholiad o'r fath ar gyfer ei dyfarniadau gradd ymchwil. Swyddogaeth y Bwrdd Arholi yw sicrhau bod y traethawd ymchwil a gyflwynir ar gyfer y dyfarniad o'r safon briodol; ei fod yn waith yr ymgeisydd sy'n cael ei arholi a bod yr ymgeisydd yn dangos y nodweddion a ddisgwylir gan ddeiliaid y dyfarniad. Er mwyn sicrhau unplygrwydd y broses arholi, mae'r Brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal yr arholiad llafar wyneb yn wyneb, gyda'r ymgeisydd, Cadeirydd ac arholwyr yn yr un ystafell. Gellir gweld y Rheoliadau a'r Codau Ymarfer perthnasol drwy [wefan y Brifysgol](#).

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gallai fod yn angenrheidiol – dan amodau eithriadol iawn – gwneud trefniadau ar gyfer arholiadau llafar drwy gyfryngau electronig. (Ni fydd y Brifysgol yn cymeradwyo defnyddio cyswllt ffôn yn unig at ddiben arholi). Felly, gall y Brifysgol gymeradwyo ceisiadau i ddefnyddio cyfryngau electronig, mewn amgylchiadau eithriadol, fel y diffinnir isod:

- i. pan fydd amgylchiadau'n codi lle na fyddai'n bosibl fel arall i symud ymlaen gyda'r arholiad llafar (e.e. os nad yw myfyriwr yn gallu dychwelyd i'r DU oherwydd fisa neu gyfyngiadau eraill) neu;
- ii. pan fydd trefniadau a gytunwyd ar gyfer arholiad llafar wyneb yn wyneb yn gorfod cael eu terfynu oherwydd amgylchiadau annisgwyl (e.e. salwch sydyn un o'r cyfranogwyr). *Noder: pan fydd amgylchiadau o'r fath yn codi, byddai'r Brifysgol yn disgwyl, fel arfer, y byddai'r arholiad yn cael ei ohirio, yn hytrach na chael ei gynnal drwy ddulliau electronig, ond derbynnir - mewn achosion eithriadol - y bydd angen defnyddio dulliau electronig yn lle hynny (e.e. pan fyddai'r myfyriwr yn dioddef yn anghymesur o ganlyniad i ohirio).*

Y Broses Gymeradwyo

Mae'r Pwyllgor Graddau Ymchwil yn atebol i'r Brifysgol ar gyfer trefniadau'r Byrddau Arholi o fewn Sefydliadau a Chanolfannau Cydweithredol. Rhaid cyflwyno pob cais am arholiad llafar sydd i'w gynnal mewn unrhyw fodd ar wahân i wyneb yn wyneb i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil ei ystyried. Ar ôl ystyried y cais, ac fel gyda holl drefniadau byrddau arholi, bydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil yn gwneud argymhellad i'r Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd yn y Brifysgol a fydd yn ystyried a yw am gymeradwyo'r cais.

Bydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil a'r Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd yn ystyried pob cais a gyflwynir ar ei rinweddau ei hun, er y bydd yn disgwyl gweld y canlynol hefyd:

- i. cadarnhad ysgrifenedig gan y cyfranogwyr arfaethedig, gan gynnwys yr ymgeisydd, nad oes ganddynt wrthwynebiad i gynnal yr arholiad drwy ddulliau electronig;
- ii. cadarnhad gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil y cynhelir yr arholiad llafar o fewn uchafswm o 12 wythnos ar ôl cyflwyno'r traethawd ymchwil
- iii. datganiad ysgrifenedig gan yr ymgeisydd ei fod wedi ildio unrhyw hawl i apelio yn erbyn canlyniad yr arholiad *ar sail y defnydd o gyfrwng electronig neu ganlyniadau'n codi o ddefnyddio'r cyfryw gyfrwng*;
- iv. cadarnhad na fydd y defnydd arfaethedig o'r cyfrwng electronig yn effeithio nac yn cyfyngu ar yr amser a ganiateir ar gyfer yr arholiad llafar ei hun;
- v. cadarnhad bod trefniadau wedi'u gwneud i'r cyfranogwyr ymgyfarwyddo â chwmpas a chyfyngiadau'r cyfrwng a ddefnyddir;
- vi. cadarnhad bod y Pwyllgor Graddau Ymchwil yn fodlon fod y cyfrwng arfaethedig yn effeithiol ac yn ddigonol ar gyfer cynnal yr arholiad;
- vii. cadarnhad y bydd yr ymgeisydd yn cael cyfle i ymgyfarwyddo â'r cyfrwng ac yn cael cyfarwyddiadau clir ar sut y caiff yr arholiad ei gynnal;

Yn ogystal, dylai'r Pwyllgor Graddau Ymchwil sicrhau'r canlynol:

- viii. bod ystyriaeth ddyledus yn cael ei rhoi i wahaniaethau parthau amser;
- ix. bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r lleoliad er mwyn sicrhau diogelwch yr arholiad. Ar ddechrau'r Bwrdd Arholi, dylai aelodau o'r Bwrdd fod yn fodlon nad oes neb arall yn bresennol gyda'r ymgeisydd. Byddai'r Brifysgol yn argymhell defnyddio adeilad y British Council ac mewn achosion lle na ddefnyddir hwn, rhaid egluro'r rheswm am beidio â'i ddefnyddio a'i gyflwyno i'r Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd ei ystyried;
- x. bod aelodau'r Bwrdd Arholi yn cael eu cyfarwyddo'n llawn ynghylch cynnal yr arholiad yn briodol, er enghraifft:
 - os yw arholwyr yn ailadrodd cwestiwn, dylid gwneud hynny'n glir;
 - os ceir toriad yn y cyswllt, bod y Cadeirydd yn crynhoi'r trafodion a chaiff unrhyw gwestiynau/sylwadau y torrwyd ar eu traws eu hailadrodd cyn gynted ag yr adferir y cyswllt;
 - dylai'r Cadeirydd sicrhau bod yr ymgeisydd wedi clywed a deall pob cwestiwn, os oes angen.

Ar ôl i drefniadau o'r fath dderbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Graddau Ymchwil ac yna'r Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd, awgrymir, cyhyd ag y bo'r ymgeisydd yn cytuno, y dylai Cadeirydd y Bwrdd Arholi wahodd y goruchwyliwr i fod yn bresennol gyda'r arholwyr.

Bydd y Brifysgol, drwy'r Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd yn adrodd i Fwrdd Academaidd y Brifysgol ar bob achos lle rhoddwyd cymeradwyaeth i ddefnyddio cyfryngau electronig ar gyfer arholiadau gradd ymchwil.

Atodiad 3

Disgwyliadau goruchwyllo Prifysgol Cymru yn dilyn arholiad cyntaf

Mae'r Brifysgol yn cydnabod lle mae arholiad cyntaf wedi arwain at opsiwn C (diwygio ac ailgyflwyno'r traethawd) neu opsiwn E (diwygio ac ailgyflwyno'r traethawd i'w ystyried ar gyfer dyfarniad MPhil) mae'n debygol y bydd angen goruchwyliaeth ac arweiniad pellach ar yr ymgeisydd gan ei dîm/ei thîm goruchwyllo fel y bo'n briodol. Mae'r Brifysgol hefyd yn cydnabod efallai bod amgylchiadau'r ymgeisydd wedi newid yn ystod y cyfnod ailgyflwyno ac y gallai hynny effeithio ar faint o amser mae'r ymgeisydd am ei ymroi i'r traethawd a'r ailgyflwyno. Fel y cyfryw, mae'r Brifysgol yn disgwyl i ymgeiswyr a chanolfannau/sefydliadau ddilyn y cyfarwyddiadau canlynol wrth gyflawni gwaith goruchwyllo yn ystod y cyfnod hwn.

Unwaith y bydd Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd y Brifysgol wedi cadarnhau canlyniad Opsiwn C (neu E) bydd yn ofynnol i ymgeiswyr a'u timau goruchwyllo gyfarfod o fewn chwe wythnos i benderfynu faint o oruchwyliaeth sy'n briodol ar gyfer yr ailgyflwyno. Dylid cynhyrchu adroddiad ysgrifenedig cryno o'r cyfarfod hwnnw, a fydd yn dangos bod yr ymgeiswyr a'r timau goruchwyllo wedi ystyried y canlyniad ac wedi cytuno ar amserlen ar gyfer goruchwyliaeth yn ystod y cyfnod ailgyflwyno, i'w ystyried a'i nodi gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil. Dylid cynnwys yr adroddiad hwn ym mhapurau safonol y Bwrdd Graddau Ymchwil hefyd a gânt eu hystyried gan Fwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd y Brifysgol.

Lle y disgwylir i'r gwaith ailgyflwyno gymryd rhwng chwe mis a dwy flynedd byddai'r Brifysgol yn disgwyl i isafswm o un cyfarfod goruchwyllo ffurfiol gael ei gynnal bob tri mis hyd at adeg yr ailgyflwyno (yn unol â'r gofynion cyn cyflwyno presennol), oni bai bod yr adroddiad cyntaf at y Pwyllgor Graddau Ymchwil yn nodi'n bendant bod angen llai o oruchwyliaeth. Dylid cynhyrchu cofnod ysgrifenedig o'r cyfarfodydd ffurfiol hyn a dylai'r ymgeiswyr a'r timau goruchwyllo gytuno arnynt.

Ar gyfer cyfnod ailgyflwyno y disgwylir iddo gymryd llai na chwe mis, dylid cynnal o leiaf un cyfarfod goruchwyllo ffurfiol yn ystod y cyfnod hwn, heblaw am y cyfarfod cyntaf, a dylid cynhyrchu adroddiad ysgrifenedig.

Ar gyfer cyfnod ailgyflwyno y disgwylir iddo gymryd rhwng chwe mis a'r uchafswm o ddwy flynedd, dylid cynhyrchu ffurflen monitro 12 mis ac 20 mis i ddyddiad cadarnhau'r canlyniad cyntaf, yn cynnwys manylion cynnydd tuag at ailgyflwyno.

Bydd ffioedd goruchwyllo a mynediad at ganolfannau/sefydliadau yn ystod y cyfnod ailgyflwyno yn fater i'w benderfynu rhwng yr ymgeisydd a'r ganolfan/sefydliad dan sylw.

